

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 469 • Medi 2016 • 50c

Ysgol Dyffryn Ogwen yn rhagori eto eleni

Yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Cafodd 98% o'r disgyblion yr hyn sy'n cyfateb i 5 o raddau A*-C, a 70% yn ennill 5 A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol wedi gwella bob blwyddyn ers i Estyn ddyfarnu dair blynedd yn ôl fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol ragorol. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i bum disgybl - Martha Evans, Gwenllian Owen, Owain Morgan, Elen Wyn ac Elin Rowlands - am ennill cyfanswm o 37 gradd A* rhyngddynt. Dipyn o gamp!



Dyma lun o dri hapus iawn ar ddiwrnod y canlyniadau lefel A - Alys Haf, sy'n mynd i astudio'r Gyfraith i Aberystwyth, Cai Dickinson yn dilyn cwrs sylfaen Celf yng Ngholeg Menai, ac Elin Cain sy'n mynd i astudio Ffrangeg a Sbaeneg i Gaerdydd. Y tri wedi cael tomen o raddau A*/A!



27 medal – ac yn dal i gyfrif

Ers i Natalie Owen, 13 oed, o Ffordd Llanllechid, Rachub ddechrau ymhel â'r byd athletau rhyw ddwy flynedd yn ôl mae hi wedi torri mwy o recordiau ar draws Cymru a Lloegr na wnaeth y Beatles.

Eleni, yn ei blwyddyn gyntaf yn Ysgol Dyffryn Ogwen fe dorrodd dair record drwy daflu'r ddisgen, record a fu'n sefyll ers 33 o flynyddoedd a hefyd record taflu'r siot, record a dorrodd ddiwethaf

ym 1987. Yna sefydlodd record newydd ar gyfer taflu'r waywffon.

Mae hi wedi sefydlu record newydd mewn nifer o gystadleuthau drwy Brydain, Manceinion, Wrecsam, Casnewydd, Caerdydd. Mae hi newydd ddechrau taflu'r siot eleni am y tro cyntaf ac mae ei chanlyniadau yn addawol.

(Rhagor o hanes Natalie tu mewn - yng ngholofn Rachub a Llanllechid)



Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Neville Hughes.

Y golygydd ym mis Hydref fydd
Derfel Roberts
Llys Artro
84 Ffordd Carneddi
Bethesda
LL57 3SG
01248 600965
Ebost: hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher,**
5 Hydref, os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 20 Hydref,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

- Londis, Bethesda
- Siop Ogwen, Bethesda
- Cig Ogwen, Bethesda
- Tesco Express, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

2016
Medi

- 17 Bore Coffi Eglwys Crist
Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 17 /18 Penwythnos Agored Rheilfordd
Chwarel y Penrhyn. Felin Fawr.
10.00 – 5.00
- 24 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracey
Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 24 “Moon Hooch”. Band Cyrn ac Offer
Taro o Efrog Newydd. Neuadd
Ogwen am 7.30.

Hydref

- 01 Cynhadledd Flynyddol Cymd.
Enwau Lleoedd Cymru. Coleg
Cambria Llysfasi. 10 – 4.
- 03 Merched y Wawr Tregarth. Festri
Shiloh am 7.30.
- 03 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
- 13 Cymdeithas Jerusalem. Y Festri am
7.00.
- 20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
- 22 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 25 Cangen Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- 29 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol
Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Rhoddion i'r Llais

- £9.00 Ifor a Beti Lewis,
Abergynolwyn.
- £10.00 Er cof am Raymond Williams,
(3 Rhes Douglas gynt), a
fuasai'n 77 mlwydd oed ar 16
Medi, oddi wrth Barbara a'r
teulu.
- £20.00 Er cof annwyl am Paul
Campbell, 11 Erw Las, a fu
farw Awst 15fed 1986. Oddi
wrth Mam, Lynne a'r teulu.

Diolch yn fawr



EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r
gloch a hanner dydd

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Awst

£30.00

(71)

Elfed Bullock,
Maes y Garnedd.

£20.00

(101)

Bethan Griffiths,
Talybont.

£10.00

(4)

Brenda Hughes,
Arafa Don.

£5.00

(51)

Dr. Einir Young,
Talybont.

Gwobrau Medi

£30.00

(178)

Ann Jones, Bron Arfon,
Rachub.

£20.00

(188)

A. Ray Davies,
Caerdydd.

£10.00

(173)

Helen Williams,
Penrhiw, Mynydd
Llandygai.

£5.00

(15)

A. Ray Davies,
Caerdydd.

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Darlith a dadorchuddio yn Llangernyw

Trigain mlynedd wedi cyhoeddi Dail Pren, unig gyfrol o farddoniaeth Waldo Williams, bydd Darlith Flynyddol Cymdeithas Waldo eleni'n cael ei chynnal yn Llangernyw, Abergele.

Mae hynny'n briodol am fod teulu ei fam, Angharad, yn hanu o'r pentref. Er iddi gael ei geni yn Market Drayton dros y ffin, roedd ei thad, John, yn frodor o Fro Hiraethog, fel yr arferid ei galw, ac yn frawd i'r athronydd Syr Henry Jones.

Mae'r gerdd 'Cymru'n Un' yn cydnabod bod y fro yn gymaint rhan o wneuthuriad Waldo ag oedd y Mynydd Du yn Sir Gâr a'r Preseli yn Sir Benfro.

Traddodir y ddarlith eleni - y seithfed - gan y Prifardd Ieuan Wyn o Fethesda, Arfon, a hynny ar y testun, "Mi welais drefn yn fy mhalas draw" Beth oedd natur gobaith Waldo?

Adwaenir Waldo fel bardd y gobaith tragwyddol, ac yn ôl Ieuan Wyn, credai Waldo "y gellid deffro pobl i ymglywed â'u perthynas hanfodol, gyd-ddibynol â'i gilydd.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Medi

18 Parchg. John Lewis Jones.

25 Parchg. John Gwilym Jones.

Hydref

2 Ann, Ty'n Lon yn trefnu.

9 Parchg. Cledwyn Williams.

16 Oedfa.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

Credai y byddai dwysau'r frawdoliaeth hon yn ysbrydoli ymdrech i greu trefn gymdeithasol a gwleidyddol gyda chyfiawnder a heddych yn teyrnasu o'i mewn."

Cynhelir y ddarlith ar nos Wener, Medi 30 - union ddyddiad geni Waldo - yn Neuadd Llangernyw am 7.30pm. Yn cymryd rhan hefyd bydd Tecwyn Ifan a disgyblion Ysgol Bro Cernyw.

Cyn hynny am 7pm dadorchuddir plac wrth fynedfa Amgueddfa Syr Henry Jones gan yr hanesydd lleol, John Hughes, i nodi'r cysylltiad rhwng Waldo a'r fro. Bydd llyfryn ar gael hefyd yn cofnodi'r cysylltiad.

Yn y cyfamser, o hyn tan ddiwedd mis Medi, mae Arddangosfa Waldo i'w gweld yn yr Amgueddfa sy'n cynnwys penddelw ohono o waith y cerflunydd, John Meirion Morris.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Hefin Wyn, Swyddog y Wasg Cymdeithas Waldo 01437 532236 hefinwyn367@btinternet.com Gweler www.cymdeithaswaldo.com

Mynydd
Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái
☎ 600744

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Emma Tong ar lwyddo yn ei arholiadau lefel A, a chael ei derbyn i astudio ym Mhrifysgol Nottingham. Pob lwc iddi hi ac i bawb arall sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau.

Newid Aelwyd

Dymunwn yn dda i Carol Smith sydd wedi ymadael â'i chartref yn Arafon. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ei chartref newydd yn Nhrefnant.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Medi 18: Boreol Weddi

Medi 25: Gwasanaeth Diolchgarwch

Hydref 2: Gwasanaeth Teuliol

Hydref 9: Cymun

Hydref 16: Boreol Weddi

Dechreuir am 9.45 y.b.

Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno a ni yn ein gwasanaeth Diolchgarwch. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref neu unrhyw wasanaeth arall cysylltwch â'r Parchedig Christina McCrea (372249), sydd yn barod bob amser i siarad ag unrhyw un o'r plwyfolion.

Braf oedd gweld cynifer yn ymuno a ni yn y Ffair ddiwedd mis Awst. Diolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto.

Cofiw'n bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

YR EGLWYS UNEDIG

Roedd ein cynulleidfaoedd ym misoedd Gorffennaf ac Awst yn deilwng iawn eto. Mae'r capel yn gynnes iawn unwaith eto, popeth yn setlo efo'r boiler newydd. Mae ein system sain newydd yn ei le, a diolchwn i Mr. Maldwyn Evans o'r Drenwydd (sef brawd Ceri Dart) am ei osod i ni. Gwerthfawrogwn hyn i gyd. Cawsom oedfa fedydd yng Ngorffennaf, sef bedyddio Ceian, mab bychan Adrian a Manon Childs o Gaernarfon. Rydym yn falch o groesawu cyfeillion atom i ymuno a ni yn ein haddoliad, a diolchwn i bawb am eu cyfraniad i'r Achos yn yr eglwys. Anfonwn ein cofion at y Parchedig John Owen yn yr ysbyty. Llongyfarchiadau i Catrin Roberts ac Iwan ar eu dyweddiad. Mae bwrllwm y gweithgareddau ar ddechrau:- Bu te parti i blant yr Ysgol Sul gan Sioned fel cyfle iddi ffarwelio cyn iddi symud i Gaerdydd ar ei chwrs. Pob bendith iddi! Mae'r baned wythnosol wedi dechrau fore Iau, 1 Medi. Croeso i bawb ddod atom. Bydd y Gymdeithas yn dechrau fis Hydref, a'r Clwb Celf yn ail gychwyn hefyd.

Cyhoeddiadau'r Sul
Medi 18: Parchg. Harri Parri.
Medi 25: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Hydref 2: Parchg. Brian Wright.
Hydref 9: Mr. Richard Lloyd Jones.
Hydref 16: Parchg. Gwyndaf Jones.
Yr oedfaon am 10.00yb a 5.00yh oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.



Ffarwelio â Sioned

CAPEL BETHANIA

Llythyr o Ddiolch
Yn dilyn cau Capel Bethania ar ddiwedd 2015, mae amryw o bethau megis Beiblau, llyfrau emynau, gwerslyfrau, lluniau, llestri, yr organ, ac yn y blaen wedi eu rhoddi i rai â chysylltiadau a'r Achos a hefyd i gapeli eraill. Mae pawb yn ddiolchgar am haelioni cyn-aelodau Bethania, yn cynnwys aelodau Capel Seion, Laird Street, Penbedw. Yn enghraifft o hyn, dyma gynnwys rhan o lythyr a dderbyniwyd gan Mrs. Gwen Davies, Tanysgafell, un o swyddogion Eglwys Bethania:-

“Prenton, Wirral.
Annwyl Gwen,
Dyma fi, o'r diwedd, yn ysgrifennu i ddiolch yn fawr iawn am yr offer cymun hardd a dderbyniais ddod drwy law fy mrawd, Emyr. Rwyf yn awr yn aelod o gapel Seion, Laird Street, Birkenhead, capel cynhesol iawn, ond yn anffodus, rhyw dair blynedd yn ôl fe dorwyd i mewn i'r capel dair gwaith mewn ychydig iawn o amser, ac fe ddinistriwyd yr organ (“pipe organ” werthfawr), a bron ein holl offer cymun, gan adael ychydig iawn o bethau di-werth. Felly, gallwch feddwl mor werthfawr fydd yr offer cymun yma i ni. Rwy'n falch o ddweud fod y capel bellach mor saff a “Fort Knox” !!

Roeddwn yng nghapel Bethania ychydig flynyddoedd yn ôl yng ngwasanaeth claddu “Auntie Mair” (Mair Griffiths, Bryntirion, mam Brenda). Roeddwn yn dotio at gyflwr arbennig y capel. Trist iawn oedd clywed am gau yr hen gapel. Cofion da am y Band of Hope, yr Ysgol Sul (ac yn enwedig trip yr Ysgol Sul i'r Rhyl!), a hefyd y Gymdeithas a'r dramâu a'r canu a'r adroddiadau oedd yn cael eu perfformio.

Diolch arbennig i chwi, Gwen, am eich caredigrwydd fel “middle man”, a'i gwneud yn bosibl i gapel Seion, y capel Cymraeg diwethaf ar yr ochr yma o lannau Mersi, i dderbyn yr offer cymun.

Diolch o galon i chi i gyd.
Phyllis O'Neill (Evans gynt).”

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 20 Gorffennaf, aeth aelodau Gorffwysfan ar wibdaith ddirgel. Cychwyn o Fethesda am 10.30yb, i lawr yr A55 ac i Gonwy i gael paned. Yna ymlaen drwy Glan Conwy, Llanrwst, Dolwyddelan a Blaenau Ffestiniog i Bwllheli i siopa. Yna cafwyd pryd o fwyd yng Nghricieth. Dychwelwyd gartref drwy Pantglas, Bontnewydd a Bethel. Diolchwyd am y trefniadau gan y cadeirydd, Mr. Elfed Bullock. Cydymdeimlwn ag un o'n haelodau, sef Mrs. Margaret Pritchard, yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Anfonwn ein cofion at yr aelodau sydd yn sâl ar hyn o bryd.

Cystadleuaeth Garlleg Flynyddol y Douglas



Dyma lun ein buddugwr Gwilym Owen, Rhos y Nant, Bethesda yn derbyn tlws Cystadleuaeth Moriarty-Thomas oddi wrth Mrs. Myfanwy Owen yng Ngwesty'r Douglas. Bu 24 yn cystadlu eleni a'r beirniaid oedd Adrian Griffin, Andrew Carson, Chris Bailey-Hughes a Chris Thomas. Cawsom bnawn difyr iawn, gyda chawl garlleg Chris Bailey-Hughes a bara soda Dr Gareth Jones wedi eu mwynhau gennym i gyd. Diolch yn fawr, Gwyn a Christine.

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ddwy a ddathlodd benblwydd arbennig yn ystod mis Gorffennaf, sef Mrs. Rhiannon Efans, Pant, ar 16 Gorffennaf, a Mrs. Mair Jones, Ffordd Bangor ar 21 Gorffennaf.

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad buan i sawl un a fu yn yr ysbyty dros dymor yr haf. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais:- Sioned Carran, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Marian Jones, Ffordd Coetmor; Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi; Mr. Derek Griffith, Abercseg. Daeth damweiniau i ran tri o'r cylch, a da deall eu bod yn gwella erbyn hyn, sef Mr. Thomas Griffiths, Ffordd Ffrydlas, Mrs. Helen Griffith, Adwy'r Nant a Mrs. Alwenna Puw, Cefn y Bryn.

Gair o ddiolch

Dymuna Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, ddiolch yn fawr i bawb am eu

cardiau a’u dymuniadau da ar aclysur dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar 21 Gorffennaf. Diolch o galon!

Dymuna Tom Griffiths, Ffordd Ffrydlas, ddiolch am yr holl ddymuniadau da a gafodd tra yn yr ysbyty, a hefyd ar ôl dod adref.

Cydymdeimlo

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Neville Hughes, Ffordd Pant, yn eu profedigaeth o golli modryb i Angharad, sef y ddiweddar Mrs. Elizabeth Roberts, o Langefni. Roedd yn 98 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Doreen Jones a’r teulu, Maes Coetmor, a Mr. a Mrs. Ron Thomas a’r teulu, Erw Las, yn eu profedigaeth o golli brawd, sef Mr. Robert Henry Thomas, Porthmadog, ar 18 Awst.

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus dros ben fore Sadwrn 16eg o Orffennaf yng Nghanolfan Cefnfaes, gan deulu y diweddar Eirian Jones, Hen Barc a fu farw yn ddiweddar. Fe wnaed elw o £460 er budd Uned Dydd, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a dymuna’r teulu ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

Profedigaeth un o genod y Gerlan

Ddydd Iau, Awst 18, bu farw John Wiley yn ei gartref yn Waltham Cross, Sir Hertford. Daeth John i Gymru pan oedd yn y Llu Awyr yn y Fali yn 1958-59 lle bu’n aelod o’r Tîm Achub ar y Mynydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cyfarfu â Doreen o’r Gerlan, a oedd yn gweithio yn Siop Woolworth, Bangor, ar y pryd. Magwyd Doreen yn 3/4 Stryd y Ffynnon, yn ferch i Alf a Phyllis Williams, ac yn chwaer i Ken, Ronnie a Sheila. Symudodd y teulu maes o law i fyw yn 7 Pen-y-bryn. Yn dilyn eu priodas yn Eglwys Glanogwen, ymgartrefodd John a Doreen yn Waltham Cross, ryw ddeuddeng milltir o Lundain ac yno y treuliasant eu holl fywyd gyda’i gilydd, a lle magwyd eu mab, Mark (sydd bellach yn briod â Susan ac yn dad i Hannah a Daniel). Bydd nifer o bobl Bethesda wedi cyfarfod â John a Doreen yn bur aml dros y blynyddoedd pan fyddent yn treulio ambell gyfnod o wyliau yn hen gartref Doreen ym Mhen-y-bryn. Nid oes amheuaeth nad ydi cyfeillion a chydabod Doreen yn cydymdeimlo’n ddwys iawn â hi yn ei phrofedigaeth a bydd croeso cynnes yn ei haros pan ddaw eto ar ei hald i Ddyffryn Ogwen.

Nodyn o ddiolch

Dymuna Doreen Wiley, Waltham Cross (gynt o’r Gerlan), ddiolch o waelod calon am yr holl alwadau ffôn, llythyrau a chardiau a dderbyniodd ar ôl colli’i gŵr John yn ddiweddar. Roedd wedi ei chyffwrdd yn arbennig iawn gan gymaint o bobol Dyffryn Ogwen a gysylltodd â hi mewn rhyw ffordd neu’i gilydd i fynegi eu cydymdeimlad.



Criw bore coffi teulu Eirian Jones

Marw

Llyfnwy Lloyd

Ar y diwrnod cyntaf o Awst, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Llyfnwy Lloyd, 33 Glanogwen, yn 77 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Sulwen Lloyd, tad gofalus Steven, Eleri a Ceri, taid hoffus Llion, Elin, Tomos a Dafydd Glyn a hen daid i Eli Mai, Seren, Ana, Efa, Elgan ac Efan.

Roedd wrth ei fodd yn garddio, ac ‘roedd ei ardd yn ddigon o sioe ac yn llawn blodau lliwgar a hefyd digonedd o domatos. Bu’n aelod o Gôr Meibion y Penrhyn am flynyddoedd hyd nes i’w iechyd dorri.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 5 Awst, yn Eglwys Crist Glanogwen ac wedyn yn Amlogsgfa Bangor. Y Barchedig Christina McCrea oedd yn gwasanaethu, a chafwyd teyrnged i taid wedi ei pharatoi gan Ceri, gyda Tomos yn ei darllen. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Owen Glyn Parry

Yn sydyn yn ei gartref, 20 Adwy’r Nant, ar 3 Awst, bu farw bu farw Mr. Owen Glyn Parry, mab y diweddar Mr. a Mrs. L Parry, Rachub. Gŵr tawel a pharchus oedd Glyn, ac wrth ei fodd yn mynychu’r boreau coffi wythnosol gyda’r ddiweddar Phyllis. Cafodd ofal a chartref arbennig gan Phyllis a’r teulu i gyd. Bu ei angladd ddydd Iau, 11 Awst, yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor, gyda’r gwasanaeth yng ngofal y Barchedig Christina McCrea a Mrs. Christine Edwards wrth yr organ.

Cydymdeimlwn â’r teulu i gyd.

John Emlyn Williams

Yn frawychus o sydyn ar 19 Awst, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. John Emlyn Williams, 2 Parc Moch, yn 60 mlwydd oed. Priod y ddiweddar Mrs. Helen Williams, tad annwyl a gofalus Debbie a thaid balch Beca, Ffion ac Owain. Roedd yn fab annwyl i Mrs. Augusta Williams a’r diweddar Mr. Ron Williams, Bron Arfon, Rachub, ac yn frawd mawr i Richard a Glyn.

Cynhaliwyd yr angladd fore Gwener, 26 Awst, gyda’r Parchedig John Pritchard yn arwain gwasanaethau ar yr aelwyd ym Mron Arfon ac Amlogsgfa Bangor.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch fel teulu yn eich profedigaeth fawr a sydyn.

Merched y Wawr – Diwedd Cyfnod

Yn ddiweddar, a chyda calonnau trwm, penderfynodd yr aelodau i beidio a threfnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Oherwydd nifer o amgylchiadau, daeth yn amlwg na fyddem yn medru penodi swyddogion i gymeryd y dasg i ofalu am y cyfarfodydd trwy’r gaeaf. Felly cyhoeddwn ein bod yn dirwyn cangen Bethesda o Ferched y Wawr i ben ar ôl deugain a phedair o flynyddoedd gweithgar.

Sefydlwyd y gangen ym 1972 gan griw o ferched brwdfrydig yn unol ag amcanion y mudiad cenedlaethol, sef i hyrwyddo’r iaith Gymraeg a gwarchod iechyd a diogelwch merched Cymru. Y llywydd cyntaf oedd Mrs Elina Owen a’r ysgrifennydd oedd Mrs Catherine Anne Evans gyda Mrs Janet Hughes yn drysorydd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf ymaelododd dros naw deg o ferched yr ardal. Mae eu henwau wedi eu cofnodi yn y llyfr cofnodion cyntaf. Yn fuan sefydlogodd y nifer oddeutu hanner cant.

Bu’r blynyddoedd nesaf yn rhai prysur a llawn yn trefnu rhaglenni ar gyfer bob tymor. Cafwyd sgrysiâu diri, sioe ffasiynnau, sioe gynnyrch gardd, ciniawau blasus, cyfarfodydd cystadleuol a theithiau dirgel blynyddol. Yn 1975 ymwelodd dwy aelod o’r gangen â Rwsia a buont yn adrodd yr hanes i ganghennau eraill. Hefyd cynhyrchwyd raglenni nodwedd i’w perfformio.

Mwynhawyd amryw o benwythnosau preswyl yn Aberystwyth a chymerwyd rhan yn gyson mewn gweithgareddau Rhanbarth Arfon. Codwyd cannoedd o bunnoedd mewn boreau coffi i gefnogi elusennau i helpu merched a chyfranwyd gwobrau i sefydliadau Cymraeg. Cyfranwyd cadair i Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen a gwobr ariannol i’r Wyl Gerdd Dant. Bu criw creadigol iawn o’r gangen yn cystadlu yn y gystadleuaeth

gelf yn Sioe Fawr Llanelwedd nifer o weithiau a chael canmoliaeth am eu hymdrech ond yn anffodus ddim wedi cyrraedd y brig. Mrs Cis Roberts a Mrs Catherine Evans yn gwnio, Mrs Phyllis Hughes yng ngofal y gosodiad blodau a Mrs Jean Ogwen Jones yn coginio. Byddai cyffro yng Nghoetmor ar y dydd Sul cynt pan fyddai'r Parchedig John Glyn Hughes yn llenwi y car â'r cynnyrch ac yn paratoi i ddanfoni y gwagedd i'r sioe i osod yr arddangosfa yn barod i'r beirniad y bore wedyn ac yna disgwyl am y canlyniadau. Amser difyr wedi mynd, ond yn ffodus mae gennym aelod sydd yn dal i gystadlu yn y sioe yn awr, sef Mrs Margaret Jones, Tregarth, yn cynrychioli tim Arfon ac yn cyrraedd y brig hefyd.

Yn ystod yr wyth degau hwyr mae llythyrau ar gael yn dangos tystiolaeth o drefnu lobi yn Llundain, pan oedd Syr Wyn Roberts yn aelod seneddol i ymgyrchu i gael gwasanaeth canfod cancr y fron. Mrs Eluned Jones oedd yr ysgrifenyddes a anfonodd wahoddiad i'r AS i annerch y merched ym Methesda.

Addawodd i wneud ei orau, ac erbyn heddiw fe wyddom beth fu'r canlyniad. Bu llawer o lythyru wedyn hefyd â'r Cynulliad i gwyno am nifer o bynciau ac i ymgyrchu dros degwch gan sefydliadau eraill dros y defnydd o'r Gymraeg. Cofnodwyd ein hanes mewn Llyfrau Lloffion chwaethus gan Mrs Elina Owen. Maent i'w gweld, wedi eu rhwymo gan Mr Andre Lomozik, yn Llyfrgell Bethesda. Yn anffodus daeth henaint, gwaeledd a cholledion trist i grebachu'r gangen gyda neb iau yn ymaelodi i gario'r gwaith ymlaen. Mi fyddwn ni, y gweddill ffyddlon, yn ymaelodi â changhennau cyfagos fel Rhiwlas a Thregarth er mwyn dal ymlaen i gefnogi'r "pethau" yn y ffordd orau medrwn ni. Rydym yn diolch o waelod calon am y gefnogaeth gawsom ar hyd y blynyddoedd gan drigolion yr ardal ac yn gobeithio y bydd tŷ iau yn datblygu ac yn gweithredu yn eu ffyrdd newydd. Mae'r oes wedi newid ond mae'r neges yr un. "Hir oes i'r iaith Gymraeg."

Pnawn dydd Mercher Awst 31 2016 daeth Mrs Hâf Roberts, Ysgrifennydd Cenedlaethol a Mrs Freda Jones Williams, Swyddog Datblygu'r Gogledd o'r swyddfa yn Aberystwyth i gau pen y mwdwl yn swyddogol. Ar ran y mudiad diolchodd y ddwy inni am ein gwaith dros y blynyddoedd.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan

Neville Hughes 600853

(nev_hughes@btinternet.com)

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1981-1982

1981

- Cyfrifiad 1981: Bethesda:
- Poblogaeth ym 1971: 3435, Canran yn siarad Cymraeg: 87%.
- Poblogaeth ym 1981: 3188, Canran yn siarad Cymraeg: 83% = Gostyngiad o 4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Ionawr 1981: Deg o dai'n cael eu codi - Bron Bethel, Rachub - ar gaeau Ty'n Ffridd.
- 21/01/1981: Marw'r bardd Elis Aethwy, 42 Braichmelyn, yn 72 oed. Wedi ymddeol, symudodd i fyw i Bryn Awel (hen dŷ gweinidog Capel Peniel, Llanllechid), tŷ a gymerwyd ar rent gan Caradog a Mattie Prichard. Symudodd wedyn i Fraichmelyn. Awdur Y Bryniau a Cherddi Eraill a Menai a Cherddi Eraill.
- 29/01/1981: Marw Mary Elizabeth Thompson, yr arlunydd, yn Tunbridge Wells. Ganed hi yn Braunton, Dyfnaint, a dioddefodd afiechyd pan oedd yn ifanc a lesteiriodd ei thyfiant. Daeth i Fethesda ym 1937 a gadael oddeutu 1954.
- Bwrdd Datblygu Cymru wrthi'n codi chwe ffatri barod yng Nghoed-y-Parc. Mewn un adeilad, bydd 2 uned 4500 troedfedd sgwâr ac mewn adeilad arall bydd 4 uned 3000 troedfedd sgwâr.
- 18/03/1981: John Ffrancon Griffith yn traddodi ei ddarlith 'Crwydro' yn Ysgol Pen-y-bryn. (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1982.
- 10/10/1981: Cyfarfodydd dathlu canmlwyddiant geni Syr Ifor Williams a gosod plac o lechen ar ei gartref - Pendinas, Tregarth: 'Cartref Syr Ifor Williams / Ysgolhaig ac Athro / 1881-1965 / Hefyd ei daid / Hugh Derfel / 1816-1890 / a'i ewythr / Huw Brython / 1848-1913'.
- 14/11/1981: Marw Mary Ellen Parry, 8 Rhes Coetmor, yn 103 oed.
- 02/12/1981: Tua 120 o bobl yn cyfarfod yng Nghanolfan Cefnfaes i ffurfio cangen leol o'r CND.

1982

- Tua dechrau'r flwyddyn: Agor y maes parcio yng ngwaelod Pantdreiniog (y tu ôl i Ben-y-graig), yn dal oddeutu 75 o geir.
- 17/03/1982: Dafydd Roberts yn traddodi ei ddarlith 'Y Chwarelwyr a'r Sowth' yn Ysgol Pen-y bryn (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda).

- Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1982.
- Bwrlwm Haf ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen.
- 07/1982: Gwibdeithiau'r Moduron Porffor: Llandudno: £1.50; Llanelwedd: £3.50; Alton Towers: £3.00; Wrecsam: £2.25; Stratford on Avon: £3.50; Manceinion: £3.00; Southport: £3.25; Caer Efrog: £3.50.
- 01/09/82: Agor Canolfan Gymdeithasol newydd Tregarth (sef yr hen orsaf reilffordd wedi cael ei haddasu a'i moderneiddio).
- 09/1982: Agor Canolfan Gymdeithasol newydd y Gerlan, sef yr hen Ysgol Gynradd.
- Ffurfio Cymdeithas Cyfeillion Dyffryn Ogwen er mwyn diogelu golygfeydd, nodweddion hanesyddol a bywyd gwyllt yr ardal. Cadeirydd y Gymdeithas: David Woodford, yr arlunydd. Y frwydr tymor byr oedd gwrthwynebu cynlluniau Awdurdod Dŵr Cymru i foddi'r tir yn Ceunant, ger Tyn-y-maes, i greu argae.
- 06/10/1982: Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn penderfynu gwahodd Eisteddfod yr Urdd i Fethesda yn 1886.
- 31/10/82: Mr W. T. Parry (yn wreiddiol o Niwbwrch, Môn) yn ymddeol o gadw'r siop fferyllydd yn y Stryd Fawr. Cadwai siop i ddechrau, yn 1945, yn Rhes Penrhyn, ac yna symudodd i'w safle presennol yn 1954. Emyr Roberts yn ymgymryd â'r busnes.
- Joe Owen yn ymddeol o gadw garej Dôl Ddafydd ym Methesda a Joe Roberts yn prynu'r busnes ac yn symud o'i garej yn Rachub i agor Moduron Anchor Motors.

1982-1983

- Yn ystod y gaeaf, symudwyd y Cwt Te a arferai sefyll ar fin y ffordd ger Llyn Ogwen i adeilad newydd o gerrig yn y maes parcio ger Ogwen Cottage. Lewis Edwards, Regent House, oedd un o'r perchnogion cyntaf ac yna Mr Alfryn Morgan (eto o Regent House). Oddeutu canol y pum degau, prynwyd yr hen gwt te gan Mrs Mary Johnston a gadwai siop ym Mraichmelyn (2 Ffordd Ffrydlas ar ôl iddi ymddeol). Oddeutu 1975, cymerwyd y busnes drosodd gan ei mab, Dennis.

I'w barhau

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),

44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,

23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Dyweddiad

Pleser yw cyhoeddi dyweddiad Catrin Mair, merch Enid a Dafydd Roberts, Cae’r Wern, Tregarth, ag Iwan Wyn, mab Linda a Nigel Williams, Carlinig, Llanberis. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y ddau deulu.

Priodas

Llongyfarchiadau i Sophie a Steven Jones, ar eu priodas yn Cyprus fis Ebrill. Mae Steven yn fab i Hefina a Steven Jones, Tregarth.

Cafodd teulu amser i’w gofio. Tra yno cafodd Steven, Sophie a Lee, brawd Steven, ddamwain ddrwg wrth gymryd rhan mewn chwaraeon dŵr.

Erbyn hyn mae’n bleser cael dweud bod y tri wedi gwella’n dda.

Diolch

Dymuna Nesta Williams, Penrhosgarnedd, gynt o 40 Tal y Cae, Tregarth ddiolch i’w chyfeillion i gyd am eu cyfarchion a’u dymuniadau da yn dilyn ei thriniaeth yn ysbyty Broad Green, Lerpwl, ac wedi iddi ddychwelyd i Fangor. Mae peth ffordd i fynd eto cyn iddi wella’n llwyr.

EGLWYS Y SANTES FAIR

Gwasanaethau
Medi 18: Dim gwasanaeth. Ymuno â St. Cross am 10.30yb.
Medi 25: Cymun Diolchgarwch am 10.30yb; Gosber am 5.00yp.
Hydref 2: Dim gwasanaeth. Ymuno â St. Tegai am 10.30yb.
Hydref 9: Cymun Bendigaidd am 9.30yb.
Hydref 16: Boreol Weddi am 9.30yb.

Clwb Cant Mis Gorffennaf

18	Harri Davies
96	Laura Jones
156	Tim Griffith

Clwb Cant Mis Awst

37	Babs Roberts
86	Val Hayward
106	Goronwy Roberts

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad at Mrs. Margaret Pritchard, 1 Ffordd Tanrhiw, a’r teulu – wedi colli chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef y ddiweddar Mrs. Eluned Roberts (Bro Syr Ifor a Phenygroes gynt). Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor a chladdwyd ei llwch ym mynwent Gelli.

Diolchgarwch

Mae tymor Diolchgarwch yma eto ac mae cynulleidfafa Gelli am ymuno yn St. Cross ar

18 Medi, ac yn St. Tegai ar 2 Hydref. Y ddau wasanaeth am 10.30yb.

Garddwest

Mae 2 Gorffennaf yn edrych ymhell yn ôl erbyn hyn, ond fe gynhaliwyd garddwest lwyddiannus iawn yn Ficerdy Pentir. Roedd y tywydd yn ffafriol tan ganol y prynhawn ac fe wnaed elw o £2,800.00 i’w rannu rhwng eglwysi St. Mair, St. Tegai a St. Cross.. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd ac i’r cefnogwyr oll.

Ruban Glas Offerynnol yr Ieuenctid

Llongyfarchiadau mawr i Gwyn Owen, 9 Tal y Cae, am ei lwyddiant ardderchog yn cipio’r Ruban Glas i offerynwyr dan 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, ym Mis Awst. Mae Gwyn newydd gwblhau Cwrs Meistr yn yr Academi Cerdd yn Llundain eleni. Y trwmped yw offeryn Gwyn a dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol yn y byd cerdd, yn drympedwr proffesiynol.

Profedigaeth

Ar 17 Gorffennaf, wedi gwaeledd hir a chyfnod o saith wythnos yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Robert Hugh Keith Hayward, Awel Dêg, Tregarth, yn 80 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda’i briod Malinda, a’i blant Keith ac Anthea. Hefyd ei frawd, Henry a’i chwaer yng nghyfraith Val, a’r teulu oll. Bu’r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Orffennaf 22. Diolch hefyd i Bob, Pant yr Ardd am y te arbennig.

Cofiw’n hefyd am y brofedigaeth a ddaeth ran Henry ym mis Mai pan gollodd ei fab, David, ym Mangor.

Llwyddiant mewn arholiadau

Llongyfarchiadau i bawb o’r ardal fu’n lwyddiannus yn eu arholiadau Ysgol a Choleg a dymunwn y gorau iddyn nhw i gyd ar gychwyn gyrfa, y Chweched Dosbarth neu Goleg.

Gwyddom am rai o ieuenctid y pentref fydd yn cychwyn mewn Colegau. Oes yna eraill ? Rhowch wybod i’r golygyddion lleol.

Manon Owen, 9 TalyCae - Prifysgol Birmingham i astudio Gwyddoniaeth
Lea Glyn Roberts, Nant yr Eira - Prifysgol Caerdydd

Daniel Glyn Roberts, Nant yr Eira - Prifysgol Aberystwyth
Joshua Williams, Ffordd Tanrhiw - Prifysgol Bangor i astudio Addysg
Gwenno Kervegant, Tan Dderwen - Prifysgol Abertawe i astudio Hanes
Llongyfarchidau hefyd i fyfyrwyr lleol fu’n lwyddiannus yn eu arholiadau Gradd eleni.

Lois Angharad Jones, 30 Tal y Cae a raddiodd mewn Cyfrifeg a Chyllid ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da i ti Lois yn dy swydd newydd ym Mryste.

Lois Glyn Roberts, Nant yr Eira a raddiodd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob llwyddiant i tithau yng Nghaer eleni.

Lowri Jones, merch Bleddyn Bowen Jones, Waen y Pandy a raddiodd mewn

Daeryddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth eleni. Pob llwyddiant i’r dyfodol Lowri.

CAPEL SHILOH TREGARTH

Dyma’r cyhoeddiadau yn Shiloh am yr wythnosau nesa
Oedfa am 5 o’r gloch
Medi 18: Philip Barnett
Medi 25: J.O.Roberts, Bethesda
Hydref 2: Philip Barnett
Hydref 9: Gwyndaf Jones, Bangor
Hydref 16: Oedfa Deulu y Diolchgarwch am 10.30
Hydref 23: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, Gorffennaf 4, trefnwyd taith y Gangen i Ysbyty Ifan i gyfarfod â Ela Wyn Jones, Meistres y Gwisgoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwniadwraig, cynllunydd a gwneuthurwraig dillad yw Ela ac fe gychwynodd ar ei swydd fel Meistres y Gwisgoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2012. Mae cyfrifoldeb y swydd yn cynnwys gofalu’n arbennig am wisg a choron yr Archdderwydd, gwisg y Priflenor neu’r Prifardd buddugol, ynghyd â gwisgoedd Mam y Fro a chyflwynydd y Flodeuged a holl wisgoedd aelodau’r Orsedd. Mae ganddi felly dipyn o dasg! Braf iawn oedd cael cyfarfod Ela yn Ysbyty Ifan a chael clywed am ei gwaith a hefyd weld dillad yr Orsedd. Cafodd rai o aelodau’r gangen wisgo rhai o’r dilladau !! Ar gychwyn y noson cafodd bawb bryd o fwyd ardderchog wedi’i baratoi gan gwmni lleol yn Ysbyty Ifan a barn pawb oedd ei fod yn werth chweil. Diolchwyd i Margaret, Jên, Andrea ac Angharad am drefnu’r daith ddiddorol.

Bydd y gangen yn cychwyn am dymor newydd, Nos Lun, Medi 5 gyda Noson o Frethyn Cartref a Gwledd. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd i ymuno gyda chriw llawn afaith yn Festri Capel Shiloh am 7.30 ar y Llun cyntaf yn y Mis oni nodir yn wahanol.

Bydd y Gangen yn cyfarfod ym Mis Hydref ar Nos Fawrth, Hydref 4 gyda’r noson yng nghwmni Rhys Mwyn, Caernarfon, fydd yn sgwrsio am ei waith fel archeolegydd.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a’i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Cartref newydd
Pob dymuniad da i Jim a Rhian Evans- Hill yn eu cartref newydd. Maent wedi symud o Cae Glas i Bryn Seiriol. Dwi’n siwr fod Huw cyn wrth ei fodd yn rhedeg yn yr ardd yng nghefn y tŷ.

Dymuno’n dda
Anfonwn ein cofion at y canlynol: Mrs Meirwen Owen sydd yng nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn, Mr John Huw Evans, ar y funud, y mae ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, Mrs Heulwen Evans yn Ysbyty Eryri, Mrs Enid Williams yng Nghartref Nyrso Penisarwaun a Mrs Beryl Griffith sydd ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Rydym yn dymuno’n dda i chi i gyd.

Clwb Rhiwen
I ddiweddu’r tymor cawsom de arbennig yn y Neuadd ac roedd amrywiaeth da o ddanteithion ar y bwrdd. Ym Mis Medi rydym wedi trefnu i ymweld â Llaeth y Llan ac yn edrych ymlaen yn arw.

Derbyn Triniaeth
Wedi disgwyl am gryn amser y mae Eurwen Williams, Rhes Uchaf, wed cael triniaeth i’w chlun yn Ysbyty Maelor ac yn gwella’n dda. Pob dymuniad da Eurwen.

Addysgol
Llongyfarchiadau i’r rhai hynny a fu’n sefyll arholiadau eleni, pob dymuniad da i chi yn eich cyrsiau addysg uwch. Bydd newidiadau hefyd i’r plant ieuegaf, rhai’n symud o’r cynradd i’r uwchradd ac eraill yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Mae Manon, Foelwyn, Carfan am fynd i Coleg Menai i astudio Gofal Plant. Pob hwyl ichi i gyd.

Penblwydd arbennig



Ar Awst 4ydd fe ddathlodd Mr John Huw Evans ei benblwydd yn 90 oed. Ar y pryd roedd yn Ysbyty Eryri a chafwyd parti yno. Ein dymuniadau gorau i chi John.

Swydd newydd
Y mae Heledd Evans wedi cychwyn ar ei swydd newydd, y mae’n ateb galwadau ambiwlans yn y ganolfan yn Llanfairfechan. I’r un pentref y mae Ifan Alun Hughes yn mynd hefyd, mae’n cychwyn ar ei yrfa fel athro yn Ysgol Pant y Rhedyn. Pob hwyl i’r ddau.

Ymddeol
Ar ddiwedd y tymor ysgol fe ymddeolodd Nia Mair Jones, Cae Glas o’i swydd fel athrawes mathemateg yn Ysgol y Creuddyn, Sir Conwy. Bu yno am nifer o flynyddoedd ac yn weithgar ac yn uchel ei pharch, ac yn awr mae’n edrych ymlaen at ei hymddeoliad. Ychydig ddyddiau cyn diwedd y tymor fe fu’n dathlu penblwydd arbennig hefyd.
Yr un yw hanes Mari Williams, Penrallt, y mae hithau hefyd wedi ymddeol o’i swydd fel therapydd lleferydd. Hwyl fawr i’r ddwy ohonoch ar eich ymddeoliad.

Iaith
Bu Steve Eaves yn Uwch Ymgynghorydd IAITH – Y Ganolfan Cynllunio Iaith am y 15 mlynedd diwethaf tan iddo ymddeol ddiwedd Mawrth eleni. Erbyn hyn mae’n un o griw bach o Ymgynghorwyr Cystllt iol iddyn nhw ac mae’n diolch iddo am ei waith diflino dros yr iaith.

Cydymdeimlo
Yn ystod yr haf bu farw Ann Povey, neu Ann Talmignedd, fel yr adnabyddid hi, a hithau ond yn 50 oed. Roedd yn nith i Elwyn, FFerm Tan y Weirglodd, yn ferch i’w ddiweddar chwaer Olive. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr Iolo a’i meibion Rhys ac Alun a’r teulu ar yr achlusur trist yma. Bu’r angladd yng Nghapel Drws y Coed ac yna ym Mynwent Macpelah, Pen-y-groes.
Cydymdeimlwn hefyd â theulu Bryn LLus, bu farw Dafydd Pryce Edwards o Frynchrug, tad y ddiweddar Sian Eaves a thaid i Lleuwen, Manon ac Iwan a hen daid i Efan, Geraint, Caradog ac Eira.

Graddio
Llongyfarchiadau i Emma Wyn Owen, Glanrhyd, a raddiodd mewn Seicoleg o Brifysgol, Bangor ac yn awyddus i fynd yn ôl i wneud cwrs Meistr ac am arbenigo mewn dementia ac Alzeimers.
Y mae Beryl, merch Mrs Maggie Picton, Bro Rhiwen wedi gweithio fel cymhorthydd yn ysgol Bryngwran ers tro ac wedi ennill Tystysgrif Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 5. Pob hwyl i’r ddwy yn y dyfodol.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Sheila a’i gŵr ar enedigaeth merch fach, Seren, chwaer i Jac a Megan ac wyres arall i Maggie, Bro Rhiwen.
Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd aa Annes Roberts, Bwthyn Cefnbraich ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bach i Siwan a’i gŵr. Nico Macsen yw ei enw ac yn frawd bach i Anelia.
Pob dymuniad da i’r ddau deulu.

Wyau a mwyl
Mae arwydd wrth y fynedfa i Fferm Tan y Weirglodd yn hysbysebu wyau ar werth, a wyau da iawn ydynt hefyd. Mae Elwyn wedi bod yn eu harddangos mewn sioeau yn ystod yr haf ac wedi bod yn llwyddiannus yn Sioe Sir Gaernarfon, Dyffryn Ogwen ac Eglwysbach. Pan yn cystadlu mae’n ofynnol cael tri ŵy o’r un maint ac o’r un lliw a gwaith ei wraig, Margaret yw eu didoli’n barod i’r gystadleuaeth. Mae ei ŵyr, Owain yn hoff o arddangos hefyd ac roedd yn awyddus i fynd a wyau hwyaid i Sioe Eglwysbach ond yn anffodus roedd ei hwyaid ef wedi stopio dodwy! Felly cafodd fenthgwyg wyau hwyaid ei daid ac ennill, ond yn bwysicach fyth enillodd y “best in show” yn yr adran wyau. Ysgwn i beth oedd gan taid i ddweud Owain? Mae dwy iâr i Elwyn yn hynod o gymdeithasol, maent yn crwydro o gwmpas Bro Rhiwen yn rheolaidd ac yn ddigon mentrus i groesi’r lôn hefyd.

Merched y Wawr
Fe fydd y gangen yn aildddechrau Nos Fawrth, Hydref 11 pryd y disgwylir Carrie o Cosyn Cymru i ddod atom. Fe fydd yn cyflwyno cynnyrch llaeth dafad inni. Buasem yn hynod falch o groesawu aelodau newydd i’r gangen.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis Awst

ER COF
Am
G. Williams
Milwr Cyffredin 20609
Byddin Frenhinol Ffwsilwyr Cymreig
A fu farw
14 – 8 – 1916 Yn 20 oed

Hugh Price Williams
Milwr Cyffredin 21173
Byddin Frenhinol Ffwsilwyr Cymreig
A fu farw
16 – 8 – 1916 Yn 20 oed

John Morris Jones
Milwr Cyffredin 37814
Byddin Frenhinol Ffwsilwyr Cymreig
A fu farw
22 – 8 – 1916 Yn 25 oed

William Robert
Milwr Cyffredin 18393
Byddin Frenhinol Ffwsilwyr Cymreig
A fu farw
22 – 8 – 1916 yn 22 oed
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i’r Llais)

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

*Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Cuarnarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

er gwel bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda 'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS

**MODURDY
FFRYDLAS**

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Dyled i Gapel Mawr

gan Wyn Thomas, gynt o Stryd Goronwy, Gerlan

Erbyn hyn dw i'n byw nid nepell o gapel Moriah, Casllwchwr, ger Abertawe. Hwn oedd canolfan diwygiad mawr Evan Roberts rhwng 1903 a 1904. Wrth fynd heibio iddo, byddaf yn aml yn gweld bysiau a cheir wedi eu parcio ger y capel wrth i ymwelwyr fynd i weld y fan ble'r oedd pobl yn heidio dros gan mlynedd yn ôl i ddilyn Evan Roberts, gan gyfaddef eu pechodau ac ymuno yn hwyl y gwasanaethau. Ond pur anaml y gwelir Cymry yno; pobl o'r Unol Daleithiau, y dwyrain canol neu'r dwyrain pell sydd yno, efallai'n gobeithio y daw digwygiad newydd yn fuan. Efengylwyr tanbaid yw'r rhain a chriw'r 'happy clappy'. Mae'r ffaith nad oes gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal yno rwan yn dweud llawer am ddirywiad y Gymraeg tua'r gorllewin yn ogystal â bod Cymru'n troi'n wlad sydd bellach bron yn ddigrefydd.



Capel Moriah, Casllwchwr gyda cofeb Evan Roberts ar y chwith.
Cefais y fraint o ddod i adnabod rhai oedd wedi bod yn rhan o'r cyffro, cyffro a welodd glybiau rygbi'n cau a phechaduriad ac yfwyr yn diolch ar goedd am iddynt gael eu hachub ym Moriah ac mewn capeli drwy Gymru benbaladr. Un o'r rheini a fu'n dyst i'r cyfan oedd John Evans Llewitha (1877-1990), y dyn hynaf ym Mhrydain pan fu farw. Digon siomedig oedd John, fodd bynnag, o fynd i Moriah. Roedd wedi disgwyl gweld Evan Roberts yn traddodi pregeth fawr a mynd i'r hwyl ond nid felly y bu. Eisteddai Evan yn y sedd fawr neu ar risiau'r pulpud

ac yn gofyn i bobl godi i gyfaddef eu beiau a disgrifio'r profiad o ddod i adnabod yr Iesu a'u hachubodd. A dyna fel yr oedd hi, pobl yn codi a sefyll ar eu seddau, eraill yn gweiddi 'Amen' a 'Diolch iddo' ac ati, ac yn torri allan i ganu emynau. Er mor boblogaidd oedd Evan Roberts, a gai ei drin fel seren y byd pop y dyddiau yma, a'r *Western Mail* yn gwerthu cardiau post o'i luniau, ni chafodd Evan Roberts na'r diwygiad afael ar John Evans.
Ond fe gafodd effaith sylweddol ar draws Cymru gyfan. Mae gennyf gof o fy nhad, Ben Thomas, Gerlan, am sawl un yr effeithiodd y diwygiad arnynt, yn codi ar eu traed â'u dwylo yn yr awyr yn diolch am faddeuant ac am gael eu hachub. Pobl oedd y rhain a oedd â'u ffordd o fyw wedi hynny yn awgrymu eu bod nhw wedi hen anghofio'r dröedigaeth, a byr fu effaith y diwygiad arnynt. Fe ddilornrwyd Evan Roberts gan grefyddwyr eraill a daeth uffern y Rhyfel Mawr yn her i'r baradwys a gynigiwyd yn 04-05.
Wrth feddwl am hyn oll ac ystyried dylanwad capeli ar ein hanes a'n diwylliant, fe drodd fy meddwl at Gapel Annibynwyr 'Bethesda', neu'r Capel Mawr, ble y bûm yn aelod selog (dan beth gorfodaeth!), trwy fy machgendod a'm llencyndod. Yr arfer ar Suliau'r haf oedd brecwast o frithyll yr oedd fy nhad wedi eu dal ddydd Sadwrn yn Llyn Idwal, yna cerdded i lawr i Fethesda ar gyfer yr oedfa foreol a dweud fy adnod; yn ôl adra am ginio dydd Sul a phwdin reis, a nhad yn aml yn adrodd hanesion Stryd Fawr, Bethesda, ar nos Sadwrn. Soniai am un dyn gyda'i bregeth gyson ar ben stryd Lock-Up: 'Ma pwdin reis yn dda ond mae Iesu Grist yn well'. Wedi cinio, fy mrawd a minnau'n gorfod golchi'r llestri i gyfeiliant y radio a 'Two Way Family Favourites', cyn gadael eto i'r Ysgol Sul. Yna yn ôl i'r Gerlan am jeli coch ac 'Ideal Milk' gyda chaws a chacan gwstad fy mam, eto i gyfeiliant y radio a'r tro yma gyda 'Down Your Way' a 'Caniadaeth y Cysegr' cyn mynd fel teulu i oedfa'r hwyr. Wedi'r oedfa, a'r dynion wedi cael siawns am sigarét dros y ffordd i'r capel ac ar ôl i'r merched gael cyfle i hel straeon, cerdded wedyn i fyny'r lôn bost at Ogwen Bank, a dringo dros Ben Braichmelyn ac i lawr at Nant-y-Graean cyn dringo'r Wern adra i Gerlan a chael llond bol o swper, sef gweddillion y cinio wedi eu ffrio.
O edrych yn ôl ar y profiadau a gefais yn Capel Mawr, o ddwystr profedigaethau i hwyl y partïon Ysgol Sul a'r tripiâu i'r Rhyl, yr eistedd hir trwy bregethau maith yng nghyfarfodydd y Pasg tra oedd fy mrawd yn ceisio fy niddanu trwy wneud llygoden fach o'i hances boced, mam yn rhoi mint imperials i mi i'm cadw'n dawel, y dorf yn llenwi'r capel i wrando ar y Parchedig

Elfed Lewis, nosweithiau yn y seiat yn gwrando ar bobl fel Bob Owen Croesor a chriw drama'r capel yn perfformio ac, yn bennaf, y cyngherddau mawr gyda phobl fel David Lloyd, Zoe Creswell a'r baswr Bruce Dargavelle yn ein diddanu. Cefais y fraint flynyddoedd yn ddiweddarach o gwrdd â Bruce Dargavelle eto. Roedd yn byw yng Nghastellnedd a daeth i'n stiwdio yn Sain Abertawe i recordio nifer o ganeuon. Erbyn hyn, er fy mod i, fel nifer fawr o'm cydwladwyr, wedi troi cefn ar y capel, mae ei ddylanwad yn dal i brocio'r cydwybod weithiau ac mae edrych ar raglen fel y Gymanfa Ganu o'r Eisteddfod eleni yn gallu codi deigrin. Fel dwi'n mynd yn hŷn, dwi'n sylweddoli fy nyled fawr i Gapel Bethesda. Yno, yn y pregethau, y darlenniadau a'r emynau y dysgais loywi fy iaith, ehangu fy ngeirfa, a gweld rhythm mewn geiriau. Fe ddysgais am gymdeithas a'm rhan a'm dyletswydd iddi, ac yno y dysgais berfformio'n gyhoeddus. Mewn ymgais i gofio fy nyled fe wnes i lun o sut yr oedd y capel yn edrych yn y flwyddyn 1875 - copi ydi hwn o lun o'r llyfr *Cyfrol y Jiwibili, Eglwys Bethesda, Arfon* gan W. J. Parry.

Dysgwn adnod bob wythos a'i hadrodd o'r sedd fawr ar fore Sul, ac os anghofio, troi at 'Duw cariad yw.' Dau ben llanw oedd i'r



flwyddyn: Eisteddfod Gŵyl Dewi ble'r oedd rhaid cystadlu trwy ddarlunio neu fod yn rhan o grŵp cydadrodd, a'r llall oedd Pasant y Nadolig a oedd yn adrodd hanes y geni. Y gweinidog, y Parchedig Ieuan S. Jones, oedd y sgriptiwr (neu addaswr o'r Ysgrythur) ac yn defnyddio Cymraeg clasurol ac aneglur a oedd bron yn drech na ni, hogia Bethesda. Mr. Jones oedd hefyd yn cyfarwyddwyo a chynhyrchu. Wrth law roedd Mrs Owen Teacher yn cadw trefn, manteisio ar bob cyfle i'n dwrdio, ac yn promptio ar noswaith y perfformiad. Er mawr siom i'r actorion, roedd Mrs Owen yn neidio i mewn os oeddem yn cymryd gwynt rhwng geiriau a byddai pawb yn y gynulleidfa yn ei chlywed. Mam, Dolly Thomas, oedd yn gofalu am y dillad ac er nad oedd gofyn am gael color i fynd ar y llwyfan, roedd Dafydd Gwilym wedi dod o hyd i ffwch o hen golur a gâi ei ddefnyddio gan grŵp drama oedd yn arfer bod yn y capel rai blynyddoedd ynghynt. Roedd Dafydd bob amser yn actio rhan Joseph tra roedd ei chwaer, Rhiannon, yn cymryd rhan Mair. Un flwyddyn, cyn i Dafydd ddod i'r llwyfan, fe welodd mam ei fod wedi cael gafael ar bensil ddu ar gyfer ymestyn aeliau ei lygaid. Er mawr fraw i mam, roedd yn debycach i Ebenezer mewn pantomeim nag i Joseph ger y preseb. Buan y diflannodd aeliau Joseph y noson honno. Bob blwyddyn, yr un rhan a gawn i, sef yr atgas Frenin Herod. Roedd fy niweddar frawd, John, wrth ei fodd efo hynny ac yn barod i ddweud mai type casting oedd yn gyfrifol am fy ngwneud yn ddihiryn y ddrama.

Isod gweler lun o'r cast tua 1952/5. Faint ohonyn nhw, tybed, fydd darllenwyr *Llais Ogwen* yn gallu eu hadnabod erbyn hyn. Os oes ar rywun eisiau copi o fy llun o'r capel, yna teimlweh yn rhydd i gysylltu efo fi ar tawefilms@ntlworld.com. Diolch o galon i Gapel Bethesda am y cymorth a gefais i'm rhoi ar ben llwybr bywyd.

Nyth Y Gân

Cerddi R. Williams Parry

Yn ein llên fe ddarllenwyd y geiriau
A garodd trwy'i fywyd,
A geiriau bach, perlau'r byd,
Oedd haf ei winoedd hefyd.

Y Cadno a'r Cwn

O bell sŵn cŵn sy'n canu, a gwyliwn
Y gelyn yn llamu
Yn filain wrth drafael
I gael ffoi, diogel y ffy.

Ar yr undon bu'n gwrando, yn cofio'r
Sŵn cyfarth a'r udo;
Ddiwetydd fe ddaw eto
I'w dŷ lle y magwyd o.

Fel tae mewn bedd gorweddodd, yn aros
I'r oriau fynd trosodd;
Ar ei daith mae'n ffaith y ffodd
Ar unig lwybr anodd.

Ymunodd glaw â'r meini, a golchwyd
O gylch wyneb rheini;
Yn y cwm ni chaed 'run ci,
Bu yno heb ei boeni.

Mae'n ddi-fraw yn yr awel, a meini'r
Mynydd mor ddiogel,
A draw o hyd wedi'r hel
Mewn daear mae o'n dawel.

Y Pryf Copyn

Ymosodwr, - am sydyn y rhedodd
Ar hyd y main gortyn
Heb roi'i afael ar bryfyn,
Yna daeth at wasgu'n dynn.

Dafydd Morris



Perfformiadau lleol:-
Galeri Caernarfon: 18 - 21 Tachwedd
(7 sioe)
Tocynnau: 01286 685222
Pontio Bangor: 15 - 17 Rhagfyr (5 sioe)
Tocynnau: 01248 382828

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

CAPEL CARMEL
Trefn Gwasanaethau
Medi 18 Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen (2.00yp)
Medi 25 Cyfarfod Gweddi.
Hydref 2 Gweinidog (Cymun)
Hydref 9 Diolchgarwch – Yr Ysgol Sul a Clwb Dwylo Pysur.
Hydref 16 Oedfa Ddiolchgarwch.
Oedfaon am 5.00yp oni nodir yn wahanol.
Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Pysur, nos Wener am 6.30 yh.
Te Bach – dydd Llun, 26 Medi. 2.30 – 4.00.
Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys ar ennill y drydedd wobwr ar yr unawd piano yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni.
Yn ystod yr haf bu sawl aelod yn yr ysbyty. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref ac yn gwella. Rydym fel Eglwys yn anfon ein cofion atoch i gyd ac at yr aelodau sy’n sâl gartref:- Mr. Raymond Tugwell, Ffordd Llanllechid, Mr. Fred Doyle, Ciltwillan, Mrs. Annie Evans, Ciltrefnus, Mrs. Marian Jones, Ffordd Coetmor, Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi, Anna Mair Williams, Lôn Groes, Lucy Tugwell, Maes Bleddyn.

27 o fedalau - a dal i gyfrif
(parhad o’r dudalen flaen)
Yng ngemau pencampwriaeth Iau Cymru, yn Wrecsam sefydlodd Natalie record gyda’r ddisgen drwy daflu 28.34m. Dilynodd medal aur arall y prynhawn hwnnw pan daflodd waywffon am dros 19.89m. Yna, y fedal arian wrth ddod yn ail yng nghystadleuaeth y siot gyda thaffiad o 8.39m. Ar hyn o bryd mae Natalie yn y brif safle i enethod 13 mlwydd oed drwy Gymru ac yn drydydd drwy Brydain. Tra roedd medalau yn cael eu hennill yn y gemau Olympaidd yn Rio eleni roedd Natalie yn ychwanegu mwy at ei chyfrif. 27 o fedalau - 22 aur, 4 arian ag 1 efydd. Gyda dwy gystadleuaeth yn weddill cyn diwedd y tymor mae’n gobeithio cyrraedd dros 30 o fedalau.
Aelod o Glwb Athletau Menai yw Natalie gyda’i hyfforddwr Mike Lee a hithau’n cydweithio. Mae’n sylweddoli, wrth symud i oedran uwch, dan 15 oed y tymor nesaf, y bydd rhaid iddi ddefnyddio’r tymor i ennill profiad ac i weithio’n galed i wella ar ei pherfformiadau personol.
Nid yw hyn yn dod heb gostau sylweddol gan bod angen yr offer anghenrheidol a safonol. Mae costau teithio hefyd yn ychwanegu at y gost. Mae’r teulu yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd a diddordeb mewn noddi Natalie. Gallwch gysylltu a hwy ar 01248 602823.

Clwb Llanllechid
Gan fod y Capel Carmel yn cael to newydd, nid oedd yn bosib cyfarfod yno, felly cafwyd cyfarfod cyntaf yn y Clwb Criced ar Awst 31. Croesawodd y Llywydd bawb i’r cyfarfod. Diolchodd i

swyddogion y clwb criced am gael cyfarfod yno. Croesawyd Eirwen Williams yn ôl wedi iddi gael triniaeth i’w phenglin a hefyd Blodwen Cavanagh hithau wedi bod yn yr ysbyty. Roeddem yn cofio hefyd am Gwenno sydd yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Gareth Hughes a’r plant wedi colli Nancy ei wraig, ac hefyd efo Augusta Williams sydd wedi colli ei mab Emlyn yn sydyn iawn. Roedd y ddwy Nancy ac Augusta wedi bod yn aelodau ffyddlon o’r clwb.
Yna cyflwynodd y llywydd Olwen a’i ffrind Evelyn o Rhostryfan. Roeddynt yn arddangos eu gwaith o gynnyrch cartref gan gynnwys cardiau o bob math, llyfrau i wneud nodiadau ac hefyd bob math o jam a thaffi triog. Cawsom dipyn o hanes y fenter.
Cawsom baned wedi ei pharatoi gan Margaret Owen ac Arfona. Cafwyd tri raffl ac fe’u henillwyd gan Margaret Owen, Arfona Edwards a Margaret Rees Williams.
Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Medi 28ain.

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Richard Arwyn Williams, Ffordd Llanllechid ar ei ddyweddïad gyda Sophie Arnoux o Lyon yn Ffrainc. Dymuniadau gorau i’r ddau ohonynt. Hefyd pob hwyl i Arwyn sydd ar fin cychwyn ei flwyddyn olaf o’i gwrs coleg fel pensaer.

Dechrau Canu
Aeth rhai o bobl yr ardal i recordio Dechrau Canu, Dechrau Canmol ym Methel cyn gwyliau’r haf. Bydd y darllediad rhywdro yn yr Hydref.

Priodas Emrallt
Llongyfarchwn Jean a Godfrey Northam, Llwyn Bedw ar dathlu penblwydd priodas Emrallt (55 mlynedd) ar ddiwedd mis Awst pan ddaeth eu plant a’u wyrion adref.

Llwyddiant
Llongyfarchwn blant yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau safon Uwch a TGAU

Clwb Criced a Bowlio
O hyn ymlaen bydd y Clwb Criced a Bowlio’n agored ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn oni cheir cais arbennig. (601880)

Ysbyty
Dymunwn wellhad buan i Raymond Tugwell, Ffordd Llanllechid wedi iddo dreulio cyfnodau mewn gwahanol ysbytai dros yr wythnosau diwethaf. Bu raid i Anna a Raymond ganslo gwyliau yn America oherwyd ei salwch.

Colledion
Bu’r Haf yn fisoedd o golledion i deuloedd yr ardal.
Ar Orffennaf 19 bu farw John Roberts, (John Britannia) yntau wedi wynebu salwch cas dros y misoedd olaf. Roedd John newydd gael ei ben blwydd yn 84 mlwydd oed. Bu ei dad yn fecar lleol a chofiw’n amdano yn y becws ar Caellwyngrudd, cyn symud i lawr i’r sgwar. Wedi gadael yr ysgol ymunodd John gyda’i dad a bu ef, am yn agos i hanner canrif, yn diwallu galw rhai o’r trigolin am fara, cacennau

a bara brith. Pa well gwaith i John i fynd i werthu y nwyddau o dŷ i dŷ, cyfarfod â’r bobl a chael newyddion am hwn a hwn neu hon a hon. Wrth gwrs roedd yn gyfle iddo dynnu coes, ac fe’i adnabuwyd fel tynnwyr coes o fri. Ar ochor y fan fara roedd ei slogan, ‘Unrhyw fenyn ond bara Britannia.’
Y tu allan i oriau gwaith bu John yn magu a dangos cwningod mewn sioeau ar draws y wlad. Bu hefyd yn dangos merlod mynydd Cymreig am gyfnod, ac yn magu moch a geifr - nes i rheini gael enw drwg fel Defaid William Morgan ers talwm! Bu hefyd yn cicio pêl gyda thim enwog Llechid Swifts am gyfnod.
Bu’r angladd ar Orffennaf 26 yng ngofal y Parch Dafydd Coetmor Williams. Gwasanaeth preifat yn Nhy’n Ffridd Uchaf a gwasanaeth cyhoeddus ar lan y bedd yng Nghoetmor.
Mae’r teulu am ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar adeg trist ac am y rhoddion tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd er cof am John. Mae diolch arbennig hefyd i’r Parch Dafydd Coetmor Williams am ei wasanaeth clodwïw.
Cydymdeimlwn gyda Wendy, Heulwen, Kevin a’r teulu oll yn eu profediagaeth.

Bu farw Owen Glyn Parry, neu fel yr adweinigd yn annwyl, Glyn Bela. 76 mlwydd oed oedd Glyn pan fu farw ar ddechrau mis Awst. Un o drigolion Stryd Doctor, Rachub oedd Glyn er iddo symud i lawr gwlad ers rhai blynnyddoedd a setlo yn y diwedd yn Adwy’r Nant. Hogyn tawel dihmongar iawn oedd Glyn er y byddai yn colli ei limpyn bob hyn a hyn gyda rhai o chwaerwyr Llechid neu Bethesda. Fe welid Glyn yn aml ar Gae Llechid neu Barc Meurig yn cynnig ei gynghorion i rai o’r chwaraewyr. Yn anffodus roedd anhwylder ar frest Glyn ers yn ifanc ac ni allodd chwarae y gêm fel y byddai wedi ei hoffi. Ond daliai yn driw i’w dimau. Byddai hefyd ar un cyfnod yn reolwr ar dîm o hogiau anystywllt Rachub, gan drefnu gemau yn erbyn pentrefi cyfagos.
Fel John, bu Glyn yn ymddiddodri ym myd magu cwningod gan deithio o sioe i sioe. Bu’r angladd yn Eglwys Glanogwen a mynwent Coetmor ar Awst 11. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu ol yn eu colled.

Awst 19 bu farw John Emlyn Williams, Parc Moch a Bron Arfon. Tarodd y newyddion am farwolaeth sydyn a disymwth Emlyn fel bollt, a hynny ychydig wythnosau wedi iddo ddathlu ei benblwydd yn 60 mlwydd oed. Nid oedd arwydd gweledol o unrhyw salwch tan y munudau olaf hynny yn y tŷ ym Mharc Moch. Bu’r angladd yng ngofal y Parch John Pritchard yn yr Amlosgfa ym Mangor ar Awst 26ain, gyda thyrfaf fawr wedi ymgynnull i gofio am Emlyn.
Anfonwn ein cydymdeimlad at ei fam, Augusta Williams, Bron Arfon, Debbie, ei ferch, Richard a Glyn ei frodyr a’r teulu oll yn eu profediagaeth enbyd.

Penblwydd Arbennig
Penblwydd hapus iawn i Dafydd ‘Washi’ Hughes yn dathlu ei benblwydd yn 60 ar Fedi’r zîl. Cyfarchion gan y teulu a’r ffrindiau i gyd. Mwynhewch y dathlu!

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Yng nghyfarfod diweddaraf y blaid cyhoeddwyd bod ein trefnydd etholaeth, Richard Thomas, bellach wedi newid ei swydd ac mai ef, fydd rheolwr swyddfa Siân Gwenllïan, AC, a bydd trefnydd newydd yn cael ei apwyntio yn y dyfodol agos. Talwyd teyrnged i waith Dic, a oedd bob amser yn frwdfrydig ac yn weithgar tu hwnt yn ei swydd a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd.

Cafwyd diwrnod da yn y Sioe eto eleni a diolch i Dafydd a Rheinallt am eu hamser ar y stondin.

Penodwyd Susan Roberts yn is gadeirydd Cyngor Cymuned Llandygai.

Bydd y Cynghorau Cymuned

yn wynebu newidiadau yn y dyfodol agos gan fod y Cyngor Sir yn chwilio am wahanol ffyrdd o drosglwyddo asedau ac i redeg gwasanaethau yn y cymunedau.

Cenedlaethol

Mewn cyfarfod wedi'r refferendwm yn Galeri, Caernarfon dywedodd Leanne Wood bod ceisio cael y gorau i Gymru a'r ffordd ymlaen fydd yn bwysig rwan.

Mewn cynhadledd arbennig yng Nghaerfyrddin dadorchuddiwyd plac i gofio am fuddugoliaeth Gwynfor Evans hanner canrif yn ôl.

Os ydych am wneud unrhyw ymholiad am ein cangen leol o Blaid Cymru gellir cysylltu gyda Mary, maryeds@hotmail.co.uk neu Neville Hughes 600853.

武術道場
Wu Shu Kwan®
Chinese kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FITTRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Gwefan: www.wushukwan.com | Gwpeplyr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-broliad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN

Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH

Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru

- Hyfforddwyr -

Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**

4ydd Gradd Gwregus Du

Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**

3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFRDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:

Cryfder • Cyflymdra • Ystywydder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynïad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

CHWILAIR

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG CACEN NEU DEISEN. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahan).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Hydref 3. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Mae fy niolch i Emyr Roberts am y testun y mis yma, ar y ffordd adref o'n gwyliau ac Em a chwant bwyd arno yn meddwl am yr holl gacennau y buasai yn hoffi eu bwyta. Bu bron i'r chwilair ddod i ben yn ystod yr haf gan fod y cyfrifiadur wedi marw, ond diolch i Alan Williams, Star, Ynys Môn am ei adfywio. Nifer fawr wedi cael hyd i BEUWLAH fel un o'r atebion, ond digwyddiad wrth i'r llythrennau ddisgyn at ei gilydd oedd hyn. Cofiwch wrth chwilio am yr atebion i symud ymlaen ar hyd y llinell, gan fod yr ateb yn hirach mewn rhai. Er enghraifft VOLUNTEERS (ARMS), GEORGE (AND DRAGON). **Dyma atebion Gorffennaf:-** Albert Inn; Beaumaris Castle; Chwarel Goch; Coetmor Arms; George And Dragon, (Talybont); Gilfach; Gorffwysfa, (Sling); Halfway House; Peniel, (Llanllechid);

A	A	W	F	C	A	C	E	N	G	R	I	S	L	E	M	O	N	H	R
I	E	J	L	C	M	B	V	B	A	H	X	I	J	U	I	S	V	S	H
E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	F	U	O	Z	M	X	V	A	D	D
N	A	E	I	R	I	N	M	A	I	R	A	C	P	A	U	Q	C	U	S
O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	L	M	W	N	O	A	Y	R
N	I	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	E	W	R	H	C	C	Q	H
O	W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	D	H	E	P	T	E	T	C
U	B	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B	N	B	F
D	R	F	O	G	J	V	I	I	R	R	X	I	M	N	H	T	N	T	O
S	S	K	O	P	W	R	C	M	K	C	B	O	O	R	C	X	I	V	R
T	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	U	Z	H	B	B	G	C	W
N	O	S	C	R	A	I	X	N	I	L	D	X	J	J	O	M	R	B	W
E	T	E	X	M	D	X	K	F	U	R	P	C	Q	Y	B	O	A	I	L
R	F	E	R	Z	Q	R	O	C	A	T	D	G	W	S	W	L	W	Z	E
Y	B	E	A	J	K	J	C	Y	L	N	L	R	V	O	I	G	Y	J	P
C	W	P	G	S	O	W	W	N	A	D	O	L	I	G	R	J	S	J	Q
U	L	F	S	V	T	M	X	E	U	G	H	S	L	N	Z	E	A	F	X
I	W	T	Z	H	K	V	A	G	L	L	U	S	B	W	N	K	A	D	S
I	K	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	P	G	X	R	A	E
E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M	B	J	S	R	F	U	N	K

Pen y Groes, (Tregarth); Swan; Volunteers Arms. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Gwenda Roberts, Ynys Môn; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Gwilym a Barbara Owen, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Pwllheli. **Enillydd Gorffennaf oedd:-** Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli. LL53 6YP.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 17 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
- 24 Medi – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.
- 22 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
- 29 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir
- 5 Tachwedd – Cefnfaes – Clwb Camera
- 12 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin - NSPCC
- 19 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 26 Tachwedd – Cefnfaes - Plaid Cymru
- 26 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur (Ffair Nadolig)

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Hydref 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Tachwedd 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Tachwedd 23ain
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

MEDI 27
HYDREF 11 a 25
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798
E-bost: dafydd@caerwern.cymru

RHAGLEN 2016/2017

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch.**
Sylwer hefyd y newid yn y patrwm ar gyfer Chwefror 2017.

Lleoliad y cyfarfodydd :
Festri Capel Jerusalem, Bethesda

2016
Nos Lun 10 Hydref
7.00 Y CYFARFOD BLYNYDDOL
7.30 Meg Ryder – Cofio Milwyr Dyffryn Ogwen: Cofebau ac Ysgrifau Cofeb yr Ardal

Nos Lun 14 Tachwedd
7.00 Naomi Jones – Yr Ysgwrn: Cadw'r Drws yn Agored

Nos Lun 12 Rhagfyr
7.00 Dilwyn Pritchard – Llechid Celts, a mwy...

2017
Nos Lun 9 Ionawr
7.00 Angharad Tomos – Mary Silyn Roberts

Nos Fercher 15 Chwefror
7.00 Rhys Mwyn – Beth yw Archaeoleg?

Nos Lun 13 Mawrth
7.00 Ieuan Wyn – Gwerthfawrogi a Diogelu Cyfoeth Enwau Lleoedd [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRS
Y ffioedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn dda. Sicciau yn daladwy i: Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.

£6.00 i rai mewn gwaith
£3.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £1.50

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2016/17:
Cadeirydd: Wynne Roberts, Bryn Difyr,
Braich Talog, Tregarth (01248) 602021

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798

Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

RHAG-HYSBYSIAD

SÊL PEN BWRDD

yn Neuadd Ogwen
neu Llys Dafydd

29 Hydref, 2016
am 9:30
£5 y bwrdd
Rhagor o wybodaeth:
07789 916166

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Eglwys Crist, Glanogwen

Sadwrn, 17 Medi

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Cronfa Goffa
Tracey Smith

Sadwrn, 24 Medi

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi
Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn, 22 Hydref

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Gŵyl Afon Ogwen

Medi 30ain,
Hydref 1af a 2il

Mae'r amser yn agosau at y digwyddiad celfyddydau blynyddol 'Gŵyl Afon Ogwen'. Digwyddiad dros y penwythnos sy'n dathlu dawn nifer o bobl Bethesda mewn gweithgareddau ffilm, cerddoriaeth, celf, cerflun, barddoniaeth, perfformio a chan.

Dewch i weld a cymryd rhan yn y 'Cyfarfodydd Creadigol Celf yn y Coed' ym Mharc Meurig.

Dros y penwythnos cewch weld ac ymuno a sawl gweithgaredd sef:-

Y corau 'Orianna' a 'Côr Cymuned Bangor'.

Ymunwch ar daith gerdded 'Darganfod Coed y Parc' gyda Gareth Roberts.

Profwech ysgrifennu creadigol gyda Kathy Hopewell ac Alys Conran.

Cewch siawns i reidio sawl peiriant rheilffordd a cherbydau ar y Rheilffordd Chwael Penrhyn yn y Felin Fawr.

Bydd stondin RSPB ar yr hen faes bowllo ym Mharc Meurig.

Dewch i weld arddangosfa celf gan artistiaid proffesiynol, ffotograffwyr a phlant lleol.

Bydd nos Sadwrn yn diweddu gyda 'Miwsig yn y Bar' lle bydd nifer o grwpiau ifanc lleol yn cymryd rhan yn Neuadd Ogwen.

Mae'r ffilm 'Atgofion Ogwen' gan bobl ifanc lleol, yn cael ei ailddangos ddwywaith yn festri Capel Jerusalem ar nos Wener a phrynhawn Sadwrn. Dydd Sul cynhelir gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r ffilm lle cewch gyfle i drafod ymhellach dros 'Paned a Sgwrs Atgofion Ogwen'. Caiff cyfranogwyr fwynhau paned o de/coffi a chacen wrth drafod eu hen atgofion a'u profiadau o'r dref a'r cyffiniau. Bydd map mawr o Fethesda a'r cylch ar gael, lle y gellir ysgrifennu'r atgofion, dangos cofebion a ffotograffau i gynhyrchu map atgofion o'r ardal. Gwahoddir pawb o bob oedran i ymuno i rannu a chymharu eu profiadau.

Am fanylion pellach, bydd ffurflenni a phosteri ar draws y dref yn yr wythnosau cyn yr ŵyl.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Brysiwch Wella

Rydym yn falch fod Buddug Hughes, Ffordd Carneddi wedi dod adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddi. Dymunwn yn dda hefyd i'r Parch. John Owen, Wernos, Cilfodan. Bu am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd cyn cael ei symud i Ysbyty Eryri.

Llwyddiant

Dymuna'r teulu longyfarch Catrin Elin Roberts, Llain, Ffordd Carneddi ar lwyddo i ennill Gradd Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Bydd Catrin yn mynd yn ei blaen i astudio am radd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol, a dymunir yn dda iddi gyda'i hastudiaethau. Llongyrchiadau iddi hefyd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.



Ennill Cwpan

Llongyfarchiadau i Stephen Roberts, Bryn Awel, Carneddi ar ennill Cwpan Eryl Jones (pysgota pluen) yng nghystadleuaeth flynyddol Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen yn Llyn Ogwen fis Gorffennaf.



gair neu ddau

John Pritchard

Atgof

Dechrau Awst. I lawr â ni i'r De, i ardal ddiarth. Tywydd braf. Llety ffwrdd â hi, mewn festri capel o bob man! Crwydro'r Maes. Sgyrsiau braf. Gweld y Cadeirio. Cyngerdd gwerth chweil yn y Pafliwn. Cwmni da. Digon o hwyl. A dawns werin i'w chofo. Ond doedd hi'n Steddfod dda?

Dechrau Medi. Mae'r amser wedi gwibio heibio a'r Eisteddfod wedi hen orffen. I ble'r aeth yr wythnosau? A'r misoedd a'r blynyddoedd o ran hynny. Oherwydd mae deugain mlynedd ers yr wythnos arbennig honno yn Aberteifi, ganol haf poeth 1976. Aeth deugain Eisteddfod arall i'w chanlyn i niwl y gorffennol erbyn hyn; ac er i mi ymweld â bron bob un ohonynt, mae'n anodd curo Aberteifi. Ar raglenni radio a theledu a ddarlledwyd o Faes yr Eisteddfod yn Y Fenni eleni, clywyd sawl un yn nodi'r deugain mlynedd ers Prifwyl Aberteifi trwy hel atgofion am 'Steddfod y llwch' a 'Steddfod y ddwy awdl'. Atgofion eraill sydd gen i.

Un o fanteision yr Eisteddfod symudol yw ein bod yn cael ymweld â gwahanol ardaloedd o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r gwahanol leoliadau'n golygu ei bod yn haws gwahaniaethu rhwng un Steddfod a'r llall. Roedd dathliadau'r Pasg yn Jerwsalem ers talwm yn debycach i'r Sioe Fawr na'r Steddfod. Llanelwedd bob blwyddyn. Jerwsalem bob blwyddyn. Yr un daith, ar hyd yr un ffordd, i'r un lle, i gadw'r un ŵyl, yn yr un modd. Pob blwyddyn yr un fath. Ond mi ddechreuodd rhai sôn am yr hyn a ddigwyddodd yno un flwyddyn benodol. Trodd hwnnw yn Basg gwahanol iawn. Mi ddalion nhw i hel atgofion am y digwyddiad hwnnw. Ac mi wnaethon nhw gofnodi'r atgofion am ddyn da - y dyn gorau a aned erioed - yn cael ei ddal a'i guro a'i hongian ar groes, cyn marw a chael ei gladdu. Ond atgofion amdano hefyd yn dod yn ôl yn fyw cyn pen tri diwrnod. Ychydig iawn a gofnodwyd am yr un o'r gwyliau Pasg eraill a ddathlwyd yn Jerwsalem y cyfnod hwnnw, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ond mae'r byd yn gwybod am y Pasg hwnnw ac am Iesu a'i farwolaeth a'i atgyfodiad.

Ac nid ar adegau arbennig yn unig y mae pobl yn cofio buddugoliaeth Iesu Grist dros farwolaeth. Nid bob rhyw ddeg neu ugain neu ddeugain mlynedd y bydd pobl yn cofio. Nid hyn yn oed bob blwyddyn ar Ŵyl y Pasg, ond bob dydd. Oherwydd i Gristnogion, nid atgof am rywbeth pell a dibwys yw'r sôn am Iesu, ond atgof am y peth pwysicaf a ddigwyddodd yn holl hanes y byd. Atgof ydyw am yr un digwyddiad a ddaeth yn sail i'w gobeithion a'u llawenydd pennaf, ac a newidiodd eu bywydau er gwell ac am byth. Fedrwyd chi ddim dweud hynny am bob atgof nac am bob Steddfod. Nid am bob un beth bynnag.

John Pritchard

Gwaith caib a rhaw cynllun hydro Ogwen yn cychwyn



Ar ddiwrnod gwlyb a gwyntog mentrodd criw bychan o bobl ifanc o holl ysgolion Dyffryn Ogwen i ymgasglu ar lannau Afon Ogwen i fod yn dystion i ddigwyddiad cyffrous: Ynni Ogwen yn cymryd cam tuag at ddyfodol gwyrddach drwy dorri'r dywarchen cyntaf ar gyfer cynllun cynhyrchu trydan ar yr afon.

Roedd y contractiwr Gwyn Roberts Construction a'i Fab o Lanuwchllyn ar gael i egluro sut mae o am fynd o'i chwmpas i dyllu ac adeiladu darnau gwahanol y cynllun o dan oruchwyliaeth gofalus y Rheolwr Prosiect lleol Gruffydd Wyn o Fethesda.

Roedd yr AC lleol Siân Gwenllian yn falch o fod yn bresennol hefyd oherwydd iddi fod yn gefnogol i'r cynllun o'r cychwyn:

"Gan fod Afon Ogwen llawn llif heddiw mae'n dangos pa mor rymus gall yr afon fod. Mae mor dda gweld cymuned Bethesda'n cydio yn ei dyfodol ei hun drwy adeiladu'r cynllun hydro yma sy'n golygu gall trigolion gael budd uniongyrchol o'r holl law sy'n syrthio yma" meddai.

Mae Meleri Davies o Ynni Ogwen wedi bod yn greiddiol i ddatblygiad y cynllun a mae'n ei chael yn anodd i gredu bod y cyfnod adeiladu ar fin cychwyn:

"Ar ddiwedd cyfnod o gynllunio, ceisio am grantiau a negydu roedd y ffaith i ni werthu'r holl gyfranddaliadau yn goron ar gyfnod

hir o waith caled. Mae'r holl gyfalaf sydd ei angen arnom i adeiladu ein hydro cymunedol wedi dod trwy law buddsoddiad cymunedol. Mae hyn yn dangos maint y gefnogaeth o'r gymuned. Rydym yn awr yn edrych ymlaen i sefydlu elusen newydd i rannu'r elw ymhén amser."

Mewn rhai ffyrdd mae'r rhan anodd eisoes wedi digwydd ond mae'r gwaith caib a rhaw yn cychwyn rwan a gyda gwynt teg, bydd trydan yn cael ei gynhyrchu gan yr Afon Ogwen yn y flwyddyn newydd.

Yn wir cafodd cwmni Ynni Ogwen ei gyfarfod blynyddol cyntaf ddydd Mercher, 13 Gorffennaf a chael gwrando ar anerchiad ysbrydoledig gan y prifardd Dr Hywel Griffiths, darlithydd Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n arbenigo mewn afonydd. Er bod Cymru wedi cael perthynas cymysg ac anodd ar adegau gyda dŵr, mae cynlluniau hydro sy'n cael eu perchen gan y gymuned, megis un Ogwen yn cynnig dyfodol mwy cadarnhaol a chynladwy, yn ôl Dr Griffiths.

Mae'r dyfodol yn edrych yn wyrdd ar gyfer Dyffryn Ogwen!

Ymholiadau pellach:
Meleri Davies
01248 602131 neu Siân Shakespear
07890613933

Diolch i Martin Roberts, Llanllechid am y ffotograff.

Rownd Derfynol Gwobrau Renewables UK Cymru i Ynni Ogwen

Ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol llwyddiannus ym mis Gorffennaf, mae cymdeithas budd cymunedol Ynni Ogwen wedi bod yn llamu ymlaen efo'r cynllun hydro cymunedol. Dan oruchwyliaeth ein rheolwr prosiect Gruff Wyn, dechreuodd y contractwyr Gwyn Roberts a'i feibion ar y safle dros yr haf. Mae'r llwybr troed yn awr wedi ei ddargyfeirio ac mae'r gwaith o adeiladu'r gored yn yr afon wedi dechrau.

Mae cynllun Ynni Ogwen wedi denu cryn sylw yn y byd ynni adnewyddadwy cymunedol dros y flwyddyn ddiwethaf a mae'n bleser dweud fod Ynni Ogwen wedi cyrraedd rownd derfynol gwobrau Renewables UK Cymru yn y categori 'Ymgysylltu Cymunedol'. Mae hyn yn glod i griw Ynni Ogwen ond hefyd i'r gymuned am eu hymateb aruthrol i'r cynllun ac edrychwn ymlaen i fynychu'r seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.

Meddai Meleri Davies, Cadeirydd Ynni Ogwen -

"Rydym yn falch iawn o gyrraedd y rownd derfynol yn y gwobrau cenedlaethol yma ac yn diolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae cyrraedd y rownd derfynol yn rheswm dathlu yn ei hun ac rydym yn falch iawn o'r llwyddiant."

Mae'n braf gallu dweud hefyd fod llwyddiant Ynni Ogwen wedi bod yn un o'r rhesymau pam fod cynhadledd genedlaethol Ynni Cymunedol Cymru yn dod i Fethesda ym mis Medi. Yn ystod y gynhadledd undydd, bydd Meleri yn rhoi cyflwyniad ar waith Ynni Ogwen ac yn benodol am brosiect Cyd Ynni - y cynllun cyflenwi ynni gwyrdd lleol. Bydd Ynni Padarn Peris ac eraill yn siarad yn y digwyddiad hefyd. Yn ystod yr haf hefyd, bu Meleri yn trafod cynllun Ynni Ogwen yn yr Eisteddfod Genedlaethol lle roedd trafodaeth am berthynas Iaith ac Economi.

Yn y llun mae rhai o gyfarwyddwyr Ynni Ogwen - Gareth Cemlyn Jones, Judith Kaufmann a Gruff Wyn a Dafydd Watts o Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Llywodraeth Cymru wrth safle cynllun hydro Ynni Ogwen.



Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Elin Cain, Ffordd Gerlan, ar ei llwyddiant yn ei arholiadau Lefel A. Bydd Elin yn awr yn mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Ffrangeg a Sbaeneg. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i ti ar y cam nesaf cyffrous yn dy yrfa, Elin, a phob hwyl yn y coleg.

Croeso
Rydym yn estyn croeso i Mike, Lowri, a Nel i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Gobeithio y byddwch yn hapus gyda ni yma.

Penblwydd arbennig
Dathlodd Pam Sinclair, Ciltrefnus, benblwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Fyddai neb sy'n adnabod Pam yn credu ei bod newydd gyrraedd carreg filltir hynod yr 80 oed. Mae bob amser mor heini, ac mor ifanc ei cherddeddiad, ei hymddygiad, a'i hagwedd, ac i'w gweld yn rheolaidd yn cerdded y dyffryn, heb sôn am yr holl wyliau tramor. Dymuniadau gorau iti ar dy benblwydd, Pam, gan bawb o'th gyfeillion yn yr ardal; gobeithiwn iti fwynhau'r dathlu yn fawr iawn.

Cipio'r Fedal Aur
Llongyfarchiadau i Brenda, merch Gwilym a'r ddiweddar Doris Jones,



Llun o Brenda yn sgwrsio hefo ymwelydd a'r sioe.

Cilfodan ar ei llwyddiant yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd gan dderbyn Medal Aur Fawr yn yr Adran Garddwriaeth - tipyn o gamp gan fod pobl o bob cwr o'r wlad yn cystadlu yn y Sioe arbennig yma. Yr oedd ei arddangosfa yn werth ei gweld.

Cofion
Gyrrwn ein cofion at Anne Evans, Ciltrefnus, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, a bellach, wedi dychwelyd adref. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch.

Symud i gartref newydd
Mae Gwion, Megan, a'r plant wedi symud o Ffordd Gerlan i'w cartref newydd yn Ffordd Bangor. Rydym yn gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Gwella
Mae Heather, Stryd y Ffynnon, wedi dod adref o'r ysbyty, wedi

iddi dreulio cyfnod yno yn dilyn damwain. Rydym yn dymuno gwellhâd llwyr a buan iti, Heather.

Yn yr ysbyty
Rydym yn gyrru ein cofion at Rich Jones, Stryd Hir, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl. Brysia wella, Rich, er mwyn inni gael dy weld adref yn ein plith yn fuan iawn.

Cartref Newydd
Croeso i Sioned, Gruff, a Dyddgu i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Maent wedi symud i fyny i'r Gerlan o Res Douglas, ym Methesda. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith yma yn y Gerlan.

Profedigaeth
Rydym yn cydymdeimlo gyda Roy Thompson, Tan Trefflys, yn ei brofedigaeth o golli ei wraig, Carol, yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg trist hwn.

Gadael y pentref
Mae Nathan, Lleucu, a'r plant wedi symud o Stryd y Ffynnon i'w cartref newydd yn Nhyddyn Caseg. Dymunwn bob llawenydd ichi fel teulu yn eich cartref newydd.

Perfformiad
Yn ddiweddar, braf iawn oedd gweld un o drigolion yr ardal, Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, yn ymddangos mewn ffilm o'r enw Atgofion Ogwen, oedd yn rhan o brosiect cymunedol 'Darganfod Dyffryn Ogwen'. Yn y ffilm, a ddangoswyd yn Neuadd Ogwen, roedd Alun, gyda'i frawd, Gwyn, a'i gefnder, Ian, yn trafod eu hatgofion am yr ardal. Roedd dwy arall o'r ardal yn rhan o'r ffilm, sef Lisa Jen, yn canu cefndir, a Cadi Roberts, yn lleisio'r ffilm, Cafwyd noson arbennig yn Neuadd Ogwen, gyda phawb oedd yno yn barnu iddynt gael amser gwych yn gwylio'r ffilm. Da iawn, bawb ohonoch, a fu ynghlwm gyda chynhyrchu'r ffilm hwn, a phawb a fu'n cymryd rhan ynddo.

Llongyfarch
Llongyfarchiadau mawr i holl bobl ifanc yr ardal a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol arholiadau yr haf hwn, yn TGAU, Lefel A, ac arholiadau Coleg, a gradd. Rydym, hefyd, yn dymuno'r gorau i bob un o blant a phobol ifanc yr ardal sy'n cychwyn ar ysgol, coleg, neu lwybr gyrfa newydd yn awr. Pob hwyl i chi i gyd!

Côr Meibion Cambria, Kalgoorlie, Awstralia

Mae Alwyn Evans, gynt o Tal y Cae, Tregarth, wedi bod yn ffyreta o gwmpas ymhlith ei gysylltiadau yng Ngorllewin Awstralia, lle y credir nad oedd fawr ddim Cymry yn ystod blynnyddoedd olaf y 19ed Ganrif a blynnyddoedd cynnar y 20 ed Ganrif (neu dyna mae'r haneswyr Awstralasiaidd yn ei gredu!) Bu'n gwneud gwaith ymchwil dros y pum mlynedd diwethaf ar George W Hall, golygydd papur newydd o Abertawe, a ddatblygodd y 'Sons of Gwalia', y fwyngloddfa

aur ail fwyaf a hiraf ei hoedl yn y dalaith honno. Wrth ymchwilio, mae wedi dod ar draws beth mwdredd o Gymry, naill ai yn y Meysydd Aur Dwyreiniol, neu yn Colliefields, ardal lofaol bwysicaf y dalaith. Ymhlith y pethau a dderbyniwyd ganddo roedd y llun yma o Gôr Meibion Cambria, Kalgoorlie. Mae Alwyn yn holi os gŵyr unrhyw un am ei hanes, yn arbennig Albert Roberts a W D Thomas, y ddau a ddaeth adre i Fethesda! Côr Meibion y Cambrian, Kalgoorlie, Rhes Gefn, chwith i'r dde: W Tucker,

E Rees, D Phillips, W Thomas, E Hughes, R Owen, E Chilcott, E R Hughes.
Ail Res: A Clarke (Llyfrgellydd) J E Glasspole (Is-Gadeirydd) G L Vernon, H Vernon, G Thomas, J Vernon,

T Evans, R Jones, P Thomas. Rhes Flaen: O Griffiths (Trysorydd), plentyn Griffiths, Albert Roberts, Parch. D Picton-Jones (Llywydd) T Christopher (Arweinydd), Miss Davies (Cyfeilydd) O Le Jones, (Cadeirydd)

J N Williams (Ysg Mygedol) E W Williams, D Davies. Rhes flaen ar y mat: A Vernon, W Davies, W D Thomas.
Cymerwyd y ffoto gan Rembrant Studios Boulder City, ger Kalgoorlie. Roedd y Parch D Picton-Jones yn weinidog yr Annibynnwyr yng Nghaloorlie o tua 1912 hyd 1917. Cyflwynwyd y llun gan Edgar Roberts, mab Albert Roberts a ddaeth o Fethesda, ynghyd â W D Thomas. Dychwelodd y ddau i Gymru ymhen amser. Mae'r llun ym meddiant archifau Kalgoorlie



Côr Plant Dyffryn Ogwen



Un o'r corau mwyaf llwyddiannus yn nhraddodiad cerddorol cyfoethog ein hardal oedd Côr Plant Dyffryn Ogwen. Cafodd ei sefydlu yn 1947 ac roedd ynddo hanner cant o blant - genethod yn bennaf - i gyd o dan ddeunaw oed. Yr arweinydd enwog oedd Mr Willie Parry o Bro Dawel, 2 Rallt Uchaf, Gerlan, gŵr a chanddo brofiad helaeth o feithrin doniau ifanc. Roedd wedi bod â chôr ieuencid o dan ei ofal cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Y cyfeilydd oedd Mr H. Glyn Roberts o Gwynant, Gerlan, pianydd galluog a phrofiadol. Llywydd y côr oedd Mr David Roberts, gyda Mr J. Rees Tyrer yn Ysgrifennydd, a Mr Emyr Parry (mab Mr Willie Parry) yn Drysorydd.

Mewn 31 cystadleuaeth dros ddeunaw mis cipiodd y côr 26 gwobr gyntaf. Tipyn o gamp, yn wir! Rhwng Medi 1949 a Mai 1951, perfformiodd y côr o flaen 23 beirniad cerdd o Gymru, Lloegr a'r Alban, ac roedd y ffaith iddynt ddod yn gyntaf chwech ar hugain o weithiau, yn ail bedair gwaith ac yn drydedd un waith yn dangos bod eu gallu yn cael ei gydnabod yn eang. Mae rhestr anghyflawn sydd ar gael yn nodi bod y côr wedi cystadlu o leiaf 64 o weithiau mewn eisteddfodau rhwng 1948 a 1958, yn cynnwys Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli 1954, Eisteddfod Plant Y Cymro Caernarfon, Eisteddfod Rhualt, Eisteddfod Gadeiriol Butlins Pwllheli, Eisteddfod Bagillt, Eisteddfod Genedlaethol Llangefni 1957, a sawl eisteddfod yn nes adref, fel Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen, Eisteddfod Gŵyl Ddewi Bethesda ac Eisteddfod Salem (A) Carneddi ac Eisteddfod Glasinfryn. Diddorol yw sylwi ar eisteddfodau sydd wedi hen ddarfod, megis Eisteddfod Gadeiriol

Llanfairfechan, Eisteddfod Penmaenmawr, Eisteddfod Moeltryfan, Eisteddfod Mochdre, Bae Colwyn, Eisteddfod Glan Conwy, Eisteddfod Gadeiriol Waunfawr, Eisteddfod Gadeiriol Talysarn, Eisteddfod Rhosgadfan ac Eisteddfod Mynydd y Cilgwyn, Carmel.

Roedd un beirniad wedi dotio cymaint at eu canu nes iddo ofyn iddynt ganu'r darn gosod am yr ail dro oherwydd nad oedd wedi clywed unrhyw gôr yn ei ganu gystal. Yn ogystal â gwobrau ariannol, enillwyd cwpanau arian, batonau a medalau. Gwisgai'r genethod ffrogiau sidan o liw pincfelyn, a byddent yn werth eu gweld a'u clywed wrth iddynt ddenu cynulleidfaoedd mewn cyngherddau ymhell ac yn agos. O ganlyniad i'r bri a ddaethai i'w rhan yn sgil eu llwyddiannau ar lwyfannau'r gogledd a'r canolbarth, fe'u gwahoddwyd i berfformio ar y rhaglen 'Aw'r Plant'.

O'r holl gystadlaethau eisteddfodol a'r cyngherddau di-rif, un o berfformiadau mwyaf arbennig y côr oedd ar achlysur dathlu pen-blwydd priodas arian Willie a Gwladys Parry. Aelodau'r Côr (efo Willie Parry, yr arweinydd, ar y chwith, a Glyn Roberts, y cyfeilydd, ar y dde):

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: **douglasarmsbethesda**
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Rhes flaen: 1. Emyr? 2. Olive. 3. Glenys Ogwen. 4. Helena Owen. 5. John Ogwen. 6. ____ 7. ____ 8. ____ Sandra Parry. 9. Blodwen Thomas. 10. Edwina (Llandygái)? 11. Deiniol.
2il res: 1. Enid Williams. 2. ____ 3. ____ 4. Kathleen White. 5. Barbara (Roberts). 6. ____ 7. Phyllis Owen. 8. Margorie Davies. 9. Iris Roberts. 10. Malinda Owen (Hayward). 11. Gwen Trefor.
3edd res: Helen Ogwen. 2. Helen Williams. 3. Gwenda Williams. 4. ____ 5. Pat Hamilton. 6. June Davies. 7. Nesta Llwyd. 8. ____ 9. Pat Anderson. 10. Ann Roberts.
Rhes gefn: 1. Nesta Ann. 2. ____ 3. Helen Morris. 4. Mair Davies. 5. ____ 6. Gwyneth (Hen Dyrpaig). 7. ____ 8. Sheila Williams. 9. Myfanwy? 10. Carol?
Gofynnir i'r darllenwyr roi gwybod pwy yw'r rhai sydd heb eu henwi.)
(Yr wybodaeth a'r llun trwy law Pat Hamilton, Carneddi.)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATIL.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.


YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A AGELADWYD AR
WAELOCION LLYWYR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1500. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
OOLYFREDD GWYCH DROS
LLYN PLOERN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYNN
DIOGYDDO GYDA SOON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am
eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad
i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Jamie Jones, 80 Bro Emrys, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar. Bydd Jamie yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar 11 Hydref. Dymunwn benblwydd hapus iawn iddo!

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Tracey a Dylan, 13. Dolhelyg, ar eu dyweddiad.

Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Emma a Dafydd, 18 Cae Gwigin, ar achlysur eu priodas ar ddechrau'r Haf. Mae Dafydd yn wŷr i Ifan a Louie, Ty Cerrig.

Ysbyty

Mae Ifan Ty Cerrig yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Anfonwn ddymuniadau gorau iddo am wellhad buan. Yr un yw'n dymuniadau i Jean Hughes, 3 Talybont, sydd hefyd yn Ysbyty Gwynedd

Arholiadau

Llongyfarchiadau i bawb o bobl ifainc y

pentref a'r ardal sydd wedi llwyddo yn arholiadau'r Haf, a phob bendith iddynt wrth gychwyn hyd eu llwybrau dewisiedig.

EGLWYS ST. CROSS

Garddwest

Ar Sadwrn cyntaf mis Gorffennaf cynhaliwyd garddwest flynyddol yng ngardd Ficerdy Pentir.

Agorwyd yr achlysur gan David Essex, ac 'roedd nifer yn bresennol er garwed y tywydd. Diolch i bawb am ein cefnogi a hefyd i'r band am ein diddori. Gwnaed elw o £2,800.00 i'w rannu rhwng eglwysi St. Tegai, St. Mair a St. Cross.

Pererindod

Ar y Sul olaf o fis Gorffennaf aeth nifer o bobl o ardaloedd Gweinidogaeth Bro Ogwen a Bro Eryri ar bererindod i Ynys Llanddwyn. Cynhaliwyd gwasanaeth o Gymun Bendigaid ar y traeth dan ofal y Parchedig John Mathews ac fe ymunodd rhai ymwelwyr yn y gwasanaeth. Cafodd pawb gyfle i weld yr eglwys ac ymuno mewn gwasanaeth byr yno. Ar y diwedd 'roedd cyfle i gael picnic ar y traeth a phawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mrs. Gracie Griffiths sydd yn Ysbyty Gwynedd eto.

CAPEL BETHLEHEM

Oedfaon y Sul

Medi 18: Parchg. Harri Parri; Medi 25: I'w gyhoeddi; Hydref 2: Parchg. Brian Wright; Hydref 9: Gweinidog; Hydref 16: Parchg. R. O. Jones. Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Sioc enfawr i bawb oedd clywed am farwolaeth sydyn John Emlyn Williams yn 60 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fam, Augusta, sydd yn aelod yma ym Methlehem, a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr.

Ail ddechrau

Yn dilyn mwynhad tymor gwyliau Awst, mae 'na rhywbeth yn braf am gael dod i rhyw fath o drefn o fis Medi ymlaen, gyda'r oedfaon, yr Ysgol Sul a'r Bwrlwm wedi ail gychwyn. Diolch i'r criw fu'n glanhau'r capel ddiwedd Awst!

Taid a Nain

Llongyfarchwyd Ifan a Barbara Jones, 1 Dolhelyg, ar ddod yn daid a nain am yr ail dro. Ganwyd hogyn bach, Erwan Teifi, i Laura ac Aneirin ym Mhontyberem. Brawd bach i Sisial!

Llongyfarchwyd hefyd, fab yng nghyfraith Ifan a Barbara, sef Aneirin Karadog ar ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni.



Y Cynllun Atal Llifogydd

Bydd trigolion Talybont yn falch o glywed bod y gwaith ar y cynllun yn prysur ddod i ben, ac yn gobeithio y bydd hyn yn datrys y broblem gorlifo yn y dyfodol. Yn un o'r lluniau fe welir rhai o weithwyr Jones Bros (Rhuthun) yn gorffen un o'rannau olaf y gwaith ger Plas Maes y Groes, ac yn y llun arall gwelir yr allanfa ble fydd unrhyw lifogydd posib yn rhedeg i mewn i'r afon Ogwen ger Pentrefelin, yn hytrach nag i lawr i'r pentref!

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Ysgol Tregarth



Ffarwelio â Glynys Roberts



Hwyl yn y Gelli Gyffwrdd

Ffarwelio
Bydd Mrs Glynys Roberts, Gofalwraig yr ysgol, yn ymddeol eleni ar ôl gweithio dros ugain mlynedd yn yr ysgol. Mae ei chyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy. Hoffem ddiolch iddi am ei gwasanaeth a'i chefnogaeth parod ar hyd y blynyddoedd. Er mwyn diolch fe gynhaliodd yr ysgol wasanaeth gadael yn Neuadd yr ysgol. Mi fydd yr ysgol yn gweld ei cholli.

Dymuniadau Gorau
Hoffem ddymuno yn dda i Mr Andrew Walton, sydd wedi bod yn yr ysgol ac yn aelod gwerthfawr o'r staff yma. Fe fydd yr ysgol yn gweld colled mawr hebddo. Dymuniadau gorau i chi yn Ysgol Bodfeurig Mr Andrew Walton!
Hoffai'r ysgol hefyd ddymuno yn dda i Miss Lisa Jones sydd wedi bod yn gweithio yn nosbarth Ogwen gyda Miss Eleri Davies. Rydym wedi mwynhau ei chwmni. Pob hwyl i chi yn y dyfodol!

Gelli Gyffwrdd
Cafodd ddosbarth Llywelyn a Ffrydlas ddiwrnod bendigedig yn Gelli Gyffwrdd dydd Mawrth 5ed o Orffennaf. Roedd y diwrnod yn gyfle arbennig i ymlacio a mwynhau'r

atyniadau cyffrous sydd yno. Cafodd pawb amser llawn hwyl yn crwydro'r parc yn yr haul, dyma oedd ffordd braf i dreulio dydd Mawrth! Llongyfarchiadau i'r plant am ymddwyn mor dda wrth gynrychioli'r ysgol.

Croesawu Rhieni a'n Disgyblion Newydd
Braint oedd croesawu ein plantos bach newydd a'u rheini i'r ysgol. Edrychwn ymlaen at gael gweithio efo chi mewn partneriaeth lwyddiannus o fis Medi ymlaen.
Hoffem groesawu disgyblion newydd i Ysgol Tregarth. Mae Ethan a Rhys wedi ymuno a ni yn nosbarth Idwal am y tymor olaf o'r flwyddyn. Mae Ethan a Rhys wedi setlo i mewn yn wych ac wedi gwneud ffrindiau newydd. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma.

Glan-llyn
Eleni aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Tregarth i wersyll Glan-llyn am y penwythnos. Cafodd y disgyblion lu o brofiadau cofiadwy yn cynnwys y cwrs rhaffau, dringo wal ac adeiladu rafft. Roedd y mwyafrif yn drist o adael Glan-llyn ond eto yn edrych ymlaen at weld eu teuluoedd ar ôl dwy noson oddi cartref. Ac unwaith eto roedd y bwyd yn fendigedig!

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar noson eithaf braf, o feddwl ei bod yn Fedi 1af, rhoddodd ein llywydd groeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf, gan obeithio fod pob aelod wedi mwynhau gwyliau adref, neu wedi cael mynd i grwydro.
Yr oedd ychydig o ymddiheuriadau, ond serch hynny yr oedd nifer dda o aelodau yn y cyfarfod. Dymunodd ein llywydd wellhad buan i Mrs Glenys Wyn Jones a hefyd Gwenno Roberts, y ddwy heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Brysiwch wella ferched, mae'r aelodau i gyd yn gyrru eu cyfarchion atoch. Yr oedd un o'r aelodau yn cael ei phenblwydd ar yr zill o Fedi, sef Mrs. Blodwen Cavanagh. Cafodd gyfarchion yn ogystal a chân i ddymuno penblwydd hapus iddi gan yr aelodau.
Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth a'r llythyr misol gan Rita. Ar ôl trafod ei gynnwys, aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd am y noson, sef Mrs Helen Holland yn wreiddiol o Fethesda, ac wedi dysgu yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ond wedi ymddeol erbyn hyn. Mae pawb yn ei hadnabod fel perchennog "Môn Ar Lwy", hufen ia sydd erbyn hyn yn boblogaidd iawn drwy'r wlad. Rhoddodd olwg i ni ar sut y cychwynnodd y fenter a'r gwaith caled iawn sydd wedi mynd i mewn i greu yr hufen ia bendigedig yma. Wrth gwrs, fe gawsom flasu'r hufen ia, a phawb yn cytuno ei fod yn flasus dros ben! Mae ganddynt lawer iawn o wahanol flasau o'r hufen ia, ac mae Helen yn creu blas newydd bron bob dydd!! Yr oedd yn noson ddifyr a blasus iawn!
Jean Hughes roddodd y diolchiadau i Helen gan ddymuno pob llwyddiant iddi yn y dyfodol gyda hufen iâ Môn Ar Lwy. Diolchodd hefyd i'r gwestwraigedd am y lluniaeth. Enillydd y raffl oedd Mrs Blodwen Cavanagh, yn rhoddedig gan Gwyneth Morris.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Doethuriaeth
Llongyfarchiadau i Dr. Nia Williams, Glan Caseg, Braichmelyn, ar ennill ei doethuriaeth o Brifysgol Bangor.



Llawdriniaeth
Gwellhad buan i Arawn Gwilym, Llys Meurig, yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.



Hwyl yr Haf ar lan Llyn Ogwen
Deio Emlyn Wyn, Braichmelyn efo brithyll enfys.

Geni
Llongyfarchiadau i Siôn a Louise Quinn, Llangristiolus, ar enedigaeth eu mab bach, Ioan Elis. Brawd bach i Erin Haf ac ŵyr newydd i Gwynfor a Nerys, Llys Hedd.

Newid Aelwyd
Croeso i Gareth a Nia a'r plant i'w cartref newydd yn Llys Meurig. Gobeithio y byddwch yu hapus iawn yn ein plith.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Keith Welling, 17 Gernant yn eu profedigaeth o golli chwaer Keith - Carolyn o Fangor.

Cofion
Anfonwn ein cofion at bawb sy'n glwm i'w cartref, yn eu plith Mrs. Eirlys Jones, 4 Braichmelyn a hefyd Mr. Ithel Owen, Penrhiw.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Steffan Evans o’r Pentref ar ganlyniad gwyh yn ei level A. Pob hwyl iddo yn y coleg tua Bryste.

Gwellhad
Da yw gweld Ethel Davies, Pennard, o gwmpas ar ôl ei llawdriniaeth.

Gerddi Agored
Cafwyd gefnogaeth dda i’r diwrnod. Gwnaed elw o £1,300 er gwaetha’r tywydd dychrynlyd. Diolch i bawb am eu cymorth. Trosglwyddwyd yr arian i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS SANT TEGAI
Gweithgareddau’r Haf yn Sant Tegai
Braf cael cofnodi llwyddiant sawl achlysur yn ystod Gorffennaf ac Awst. Cynhaliwyd Pererindod Bro Ogwen a Bro Eryri ar Ynys Mon ar y 31 o Orffennaf ac yn gynharach yn y mis bu cyfle i 3 eglwys gyd weithio a chynnal “Garddwest y Tair Eglwys” yng ngerddi Ficerdy Pentir. Ar 22ain o Orffennaf trefnwyd “Noson o Eiriau a Cherdoriaeth” yn Eglwys Sant Tegai gyda Twm Morys a Gwyneth Glyn yn perfformio. Dychwelodd yr artistiaid i Arddwest ym Mhare Penrhyn ar brynhawn Sadwrn Gwyl Y Banc a daeth llu o ffrindiau’r eglwys i fwynhau gwledd o gân o ynys Cyprus ac o Gymru. Diolch i Georgia a Richard Douglas Pennant am noddi’r digwyddiad rhyngwladol a chodwyd elw o dros £800 tuag at Gronfa Atgyweirio Eglwys Sant Tegai.

Ail Ddarlith Goffa Archesgob John Williams (John Iorc)
Nos Wener 23 Medi am 7 o’r gloch traddodir sgwrs yn Saesneg ar Archesgob John Williams (John “Iorc” Teulu Cochwillan) gan yr Athro Kenneth Fincham, Athro Hanes Modern Cynnar Prifysgol Caint yng Nghaergaint. Dyma’r

ail ddarlith mewn cyfres o ddarlithoedd ar fywyd a gwaith John Iorc. Bydd yr Athro Fincham yn dadansoddi gyrfa ryfeddol a chythryblus John Williams o’i amser fel Esgob Lincoln hyd at ei ddyrchafiad i swydd Archesgob Caerefrog. Teitl y ddarlith fydd “John Williams- Offeiriad Eglwysig 1621-1642”. Mynediad yn £5 a lluniaeth ysgafn i ddilyn yn Neuadd Talgai. Mae bedd a chofgolofn Archesgob John Williams yn Eglwys Llandygái. Bydd cyfle yn y casgliad wrth ymadael i gyfrannu i’r Gronfa Atgyweirio.

Dymuniadau gorau
Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau dros yr Haf at aelodau’r eglwys neu at bentrefwyr sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder, yn disgwyl triniaeth neu wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Gwasanaethau Diolchgarwch
Ni fydd gwasanaeth yn Eglwys Sant Tegai ar Medi 18 (Gwasanaeth Diochgarwch ar y cyd yn Eglwys St Cross Talybont am 10.30 y bore) a dim gwasanaeth yn yr un modd ar Medi 25 (Gwasanaeth ar y cyd

am 10.30 yn Eglwys y Santes Fair Tregarth yn ddwyieithog ac yn y Gymraeg am 5 yr hwyr), Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch (Dwyieithog) Eglwys Sant Tegai Llandygái ar Nos Sul yr zail o Hydref. Croeso cynnes i bawb.



Gerddi Agored

Llyfrau, Crefftau, Cyfleoedd Gwirfoddoli a mwy – Siop Ogwen



Mae Siop Ogwen yn siop gymunedol nid er elw sy’n gwerthu llyfrau, crefftau, gemwaith a chelf lleol. Mae ystod eang o lyfrau ar gael o lyfrau plant i nofelau a hunangofiannau i oedolion. Rydym hefyd yn gwerthu llyfrau ail law o ddiddordeb lleol a mae’r rhan fwyaf o grefftau wedi cael eu gwneud gan grefftwyr o Ddyffryn Ogwen. Dan arweiniad ein gweinyddwr newydd Rebecca Hardy Griffith mae’r siop wedi cael ei gweddnewid

yn ddiweddar i roi lle teilwng i arddangos gwaith celf a chreffftwaith ein artistiaid lle. Siop gymunedol yw’r siop sy’n golygu ein bod ni’n ddibynol ar gymorth gwirfoddolwyr i’w staffio. Mae hyn yn golygu fod ein oriau agor wedi eu cyfyngu i 4 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd. Hoffem felly wneud cais cyhoeddus i unrhyw un a fyddai â diddordeb gwirfoddoli i gysylltu â Becs yn y siop neu alw heibio’r siop neu swyddfa

Partneriaeth Ogwen i gofrestru eich diddordeb. Gallwch hefyd e-bostios siop@ogwen.org neu ffonio 01248 208495. Yn ystod y misoedd nesaf, gobeithiwn gynnal sesiynau arwyddo a sgwrsiau gydag awduron lleol a bydd rhain yn cael eu hysbysebu yn lleol. Cofiwch alw heibio i’n cefnogi! Yn y llun mae Becs a chriw gwirfoddolwyr cyfredol Siop Ogwen a diolch yn fawr i bob un ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr.

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glynn Jones, 2 Stryd Fawr,
Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Huw a Sian Griffiths, Penhower Uchaf, ar enedigaeth Elsi Mair ar 25 Gorffennaf, chwaer fach i Lydia, wyres i Mair a James Griffiths, Pen y Bryn, a gorwyres i Mrs Muriel Pritchard, Tegfan. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Brysiwch i wella!

Ar ddiwedd Gorffennaf cafodd Dr Ann Illsley, Pen y Cefn, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd i gael pen-glin newydd. Pob dymuniad da iddi am wellhad llwyr a buan.

Cydymdeimlo

Ar 2 Awst bu farw Henry Cyster, 22 Caerhun, gŵr Gerry a thad Karl, Tony a Jodie. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd, ac yntau'n 71 oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys St Cedol, Pentir ar 12 Awst. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Croeso!

Croeso adref ar wyliau, i gartref eu tad, Allan Jones, Merddyn Gwyn, i'r brodyr Jonathan a Martin. Mae Jonathan yn byw ym Mherth, Awstralia, a heb fod yng Nghymru ers deg mlynedd ac mae Martin yn byw ym Mermuda ers tipyn o flynyddoedd bellach.

Sefydliad y Merched

Euthum i Blas Cadnant ar gyrion Porthaethwy ar y 13eg o Orffennaf i dreulio gyda'r nos hamddenol braf yn crwydro'r gerddi. Balch oeddem o weld y rhan fwyaf o'r ardd wedi ei adfywio ar ôl y difrod difrifol a gawsant yno Nadolig diwethaf. Mae'r gwaith adnewyddu yn prysur fynd ymlaen ond yn amharu fawr ddim ar harddwch y gerddi.

I ddilyn y dro o amgylch yr ardd, cawsom bryd o fwyd yng Ngwesty'r Victoria wedi ei drefnu gan Mair. Mawr yw ein dyled i Mair am yr holl drefnu a chymerwn y cyfle yma i ddiolch yn fawr iddi a hefyd i ddymuno pen-blwydd hapus ar gyrraedd oedran arbennig! Llongyfarchiadau hefyd iddi hi a Jim am ddod yn nain a thaid unwaith eto i Elsi Mair, merch fach Huw a Sian a chwaer fach Lydia. Llongyfarchiadau i Mrs Muriel Pritchard hefyd - dwi'n siŵr eich bod chi, Mrs P, wedi colli cownt ar yr holl fabis newydd! Braf iawn arnoch a chofion annwyl atoch i gyd.

Mae gennym ymddiheuriad i'w wneud i Nesta a Hefin Tŷ Capel sydd wedi dathlu pen-blwydd priodas aur rhai wythnosau'n ôl. Sori Nesta am fethu'r dyddiad ond derbyniwch ein dymuniadau gorau yn awr ar yr achlysur pwysig hwn.

Ysgol Rhiwlas



Steve Eaves yn ymweld a'r ysgol.



Dathlu llwyddiant tîm peldroed Cymru yn yr Ewros, a hefyd cynnal disgo uniaith Gymraeg i ddathlu'r llwyddiant'



Enillwyr Tystysgrif Siarter Iaith

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Gorffennaf aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon ac yno ail etholwyd tri ohonynt fel swyddogion.

Penderfynwyd anfon neges o gefnogaeth i Jeremy Corbyn, arweinydd Plaid Lafur Prydain. Hefyd aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru i wrando ar Ken Skates (gweinidog yn Llywodraeth Cymru) a Susan Elen Jones (aelod seneddol De Clwyd); gan

ofyn cwestiynau a mynegi barn.

Bu ychydig o aelodau'r gangen yn helpu Cangen Bangor mewn is-etholiad ar gyfer Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd yng nghanol y mis ond siomedig oedd y nifer a bleidleisiodd - dim ond tua 20%.

Ar wahan i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Arfon, ni fu llawer o weithgarwch yn ystod gwyliau'r haf ond cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7:30 p.m. ar Hydref y 3ydd yng Nghanolfan Cefnfaes.

Cyfle i chi ddweud eich dweud am ddyfodol S4C

Beth yw eich hoff raglenni ar S4C?
Beth ddylai S4C fod yn ei ddarparu yn y dyfodol? Beth mae sianel deledu Gymraeg yn ei olygu i chi?
Mae cyfle i chi roi eich barn a chyfrannu at y drafodaeth am ddyfodol S4C yn yr holiadur ‘Dweud eich Dweud’ sydd ar gael i bawb ei llenwi ar wefan **s4c.cymru**
Mae S4C yn awyddus fod llais y bobl yn cael ei glywed yn rhan o’r paratoadau ar gyfer Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU o S4C yn 2017. Mi fydd yr Adolygiad yn edrych ar waith a rôl S4C a’r math o wasanaeth sy’n debyg o fod ei angen yn y dyfodol.

Yn ôl Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C, mae hi’n bwysig iawn cynnwys y cyhoedd yn y sgwrs.
Meddai Huw Jones; “Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed – pa fath o wasanaeth mae pobl eisiau ei weld a pha wasanaeth aml gyfryngol fydd ei angen yn y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd Adolygiad yn ystyried hyn yn ofalus ynghyd â sut y gall S4C ddarparu ac ariannu gwasanaeth yn y ddeng mlynedd nesaf.”
Ewch i wefan **s4c.cymru** nawr i lewni’r holiadur er mwyn Ddweud eich Dweud am S4C.



Gwirfoddolwch i Gymdeithas Eryri!

Mae’r gweithgareddau yn cynnwys cynnal a chadw llwybrau, casglu sbwriel, rheoli cynefinoedd, clirio rhododendron, gwneud arolygon o famaliaid a chyfleoedd i hyfforddi am ddim.



Mwynhau Eryri
Gwneud ffrindiau newydd

Dysgu sgiliau newydd
Rhoi rhywbeth yn ôl

Gwella eich CV
Cael hwyl!

Byddwn yn rhedeg diwrnodau gwaith cadwraeth trwy gydol y flwyddyn yn Eryri a’r cyffiniau. Croeso i bawb.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag Owain Thomas:
owain@snowdonia-society.org.uk
01286 685498
www.snowdonia-society.org.uk



Ysgol Dyffryn Ogwen

Blwyddyn 7
Cychwynnodd 76 disgybl ym mlwyddyn 7 eleni, sy’n dod a chyfanswm y disgyblion yn yr ysgol dros 400. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn parhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf. Mae’r 76 disgybl yn dod o 9 ysgol

gynradd – gyda’r nifer mwyaf yn amlwg o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas a Thregarth – ond un disgybl yr un hefyd o Ysgol y Garnedd Bangor, Ysgol Dolbadarn Llanberis, Ysgol y Waunfawr ac Ysgol Llandygai.

Athrawon Newydd
Mae’r ysgol yn croesawu nifer o athrawon newydd ar gychwyn y flwyddyn ysgol – Ms Lesley Howells yn Bennaeth Cemeg newydd, Mr Richard Hayes (cyn-ddisgybl) yn athro Mathemateg ac

Miss Awen Mair yn athrawes Gymraeg. Mae’r ysgol yn falch iawn hefyd o groesawu tri cyn-ddisgybl yn ôl - Chloe Ward a Sara Williams fel cymorthyddion ac Angharad Jones fel llyfrgellydd a thechnegydd Gwyddoniaeth.

Ysgol Bodfeurig

Carnifal

Ar ddiwedd y tymor bu dosbarth Tryfan yn dysgu am garnifalau. Gyda'r plant yn gyfrfiol am gynllunio'r gwaith yn naturiol roedd rhaid cynnal carnifal ei hunain! Cafwyd llond trol o hwyl ar ddiwrnod y carnifal wrth i bawb ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisg ffansi a dewiswyd brenin a brenhines y carnifal cyn cael gorymdaith fawr o flaen rhieni a ffrindiau'r ysgol.



Dyma pawb gyda'u mygydau yn barod ar gyfer y carnifal!

Ffarwelio a Chroesawu

Diwedd y flwyddyn daeth yn amser i ni ffarwelio gyda plant blwyddyn 6 wrth iddynt symyd ymlaen i'r ysgol uwchradd. Pob lwc i chi gyd wrth i chi symyd ymlaen. Roedd hefyd yn amser i ni ffarwelio gyda Miss Price sydd wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers blwyddyn a hanner. Dymunwn y gorau iddi wrth iddi fynd i deithio.

Ar ddechrau blwyddyn newydd hoffwn groesawu y plant newydd sy'n dechrau yn yr ysgol. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma gyda ni. Croeso hefyd i Mr Andrew Walton sydd yn ymuno â staff dysgu yr ysgol.

Ynni Ogwen

Ar ddiwrnod gwlyb iawn ar ddiwedd y tymor, braf oedd cael gwahoddiad gan Ynni Ogwen i weld y safle ar gyfer y cynllun ac i weld y dywarchen gyntaf yn cael ei thorri. Diolch i ddau o Gyngor Eco'r ysgol am ymuno gyda plant eraill y dalgylch ar gyfer yr achlysur arbennig yma.




Penwythnos Agored

Safle Felin Fawr
DYDD SADWRN A
DYDD SUL

17 a 18 Medi
10.00yb - 5.00yp

DIGWYDDIAD STÊM
(gyda 3 Injan Stêm)

Hefyd Stondinau
Triapiau ar y Tren Bach
Hen Geir ac Injan Tracsion
Taith ar Hen Fws i Porth Penrhyn



Marchnad Ogwen

Mae'r croeso arferol yn eich disgwyl ym Marchnad Ogwen wrth gwrs! Bydd y Farchnad nesaf Hydref 8fed yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30.

Rydym yn chwilio am stondin gig a stondin fara i ymuno â'r Farchnad yn barhaol. Yn wir, mae croeso i unrhyw stondin fwyd sydd yn gwerthu cynnyrch nad yw ar gael eisoes yn y Farchnad.

Mae'r Stondin Elusen mis Hydref yng ngofal yr NSPCC - achos teilwng os bu un erioed! Mae criw da yn y Dyffryn yn cefnogi'r achos yma ac mae Marchnad Ogwen mor falch o allu hyrwyddo eu gwaith. Marchnad Ionawr yw'r nesaf sy'n rhydd i Stondin Elusen.

Elen Williams gyda 'Scrabels' sydd ar y Stondin 'Un Tro' mis Hydref. Eto, mae Marchnad Ogwen yn falch o allu cefnogi a hyrwyddo busnes gan ferch leol. Os ydych chi gyda diddordeb mewn llogi'r Stondin 'Un Tro' cysylltwch â'r Ysgrifennydd, neu dewch i'r Farchnad a chewch weld copi o'r telerau llogi. Cofiwch fod yn rhaid i'r cynnyrch fod yn WAHANOL i'r hyn a werthir fel rheol yn y Farchnad. Mis Ionawr yw'r mis nesaf sydd ar gael i'r stondin yma.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk neu ar Facebook.



Stondin y mis yma yw 'Cosyn Cymru' - ia, stondin gaws! Carrie Rimes sy'n rhedeg y Stondin ac mae ei chynnyrch yn werth chweil. O Ddyfnaint y daw Carrie yn wreiddiol ac mae wedi dysgu Cymraeg yn ardderchog. Ers yn blentyn, roedd diddordeb gan Carrie mewn gwneud caws gyda llefrith dafad ac o'r diwedd mae wedi gallu gwireddu ei breuddwyd. Aeth Carrie ati i ddysgu'r grefft i safon uchel iawn trwy dreulio amser hir yn Ffrainc. Problem fwyaf Carrie ar y dechrau oedd cael cyflenwad digonol o lefrith dafad, ond erbyn hyn mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth. Mae amrywiaeth o gaws caled a chaws meddal ar ei stondin ac mae enwau hyfryd ar y gwahanol fathau o gaws - Caws Chwaraol, Olwyn Fawr, Caws Calan, a Brefu Bach. Ym mis Mehefin, enillodd Carrie wobwr y newydd-ddyfodiad gorau am wneud caws trwy holl wledydd Prydain! Dyna i chi gamp! Mae iogwrt a hufen iâ hefyd ar y Stondin, ond caws yw'r prif gynnwch ar hyn o bryd. Dewch i flasau!



Ysgol Pen-y-bryn

Gelli Gyffwrdd
Cafwyd diwrnod arbennig o dda ym mharc Gelli Gyffwrdd ar Orffennaf 14eg. Daeth yr haul allan wrth i ni gyd fynd o un lle chwarae i'r llall a chafodd bawb lawer o hwyl, yn enwedig ar y sleid newydd! Ffordd wych i goroni blwyddyn o waith caled!

Mabolgampau
Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar ddydd Mercher, Gorffennaf 13eg ar dir Ysgol Dyffryn Ogwen a chafwyd bore llwyddiannus iawn. Bu pawb yn cystadlu'n frwd a llawer o rieni wedi dod i wylio. Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am adael i ni ddefnyddio tir yr ysgol a diolch i blant blwyddyn 10 a fu'n helpu.

Presenoldeb
Cafodd wyth o blant yr ysgol dystysgrif a gwobr am gael blwyddyn o bresenoldeb 100% - ardderchog! Derbyniodd un plentyn wobr a thystysgrif arbennig iawn, sef Siôn Lewis, sydd wedi cael presenoldeb 100%



Y plant yn falch o'u dystysgrifau presenoldeb

ers iddo fod ym Mhen-y-bryn – 4 blynedd o bresenoldeb llawn! Da iawn i bawb!

Hwyl fawr!!
Cafwyd bore dagreul ym Mhen-y-bryn ar Orffennaf 15 fed pan ffarweliodd 33 o ddisgyblion blwyddyn 6 gyda ni am y tro olaf. Cawsom gyflwyniad bywiog a hwyliog ganddynt yn ystod y

gwasaneth; pob un yn perfformio mor hyderus ac i safon arbennig. Dymunwn bob llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol!!

Côr
Bu rhai o aelodau côr Ysgol Penybryn yn ddigon ffodus i gynrhychiolu'r ysgol yn ddiweddar yn seremoni Gwobrywo Ser Chwaraeon

Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd a Mon. Cynhaliwyd y seremoni yng Nghanolfan Tennis Caernarfon, ac roedd yn braf cael cyd-ganu efo aelodau o gorau Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen, o dan arweiniad Mr Hefin Evans. Gan mai seremoni i wobrwyo ser ifanc y byd chwaraeon oedd yr achlysur, roedd y dewis o ddwy gan yn arwyddocaol iawn. Sosban Fach ac wrth gwrs, yn dilyn llwyddiant diweddar Tim Pel Droed Cymru - 'Rhedeg i Baris'.

Betsan ac Anest
Cafodd Bestan ac Anest o'r Grwp Gwyrdd fynychu seremoni pwysig iawn i ardal Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Fel aelodau o'r Grwp Gwyrdd cawsant fynd i seremoni torri tywarchen gyntaf y Cynllun Hydro Ogwen ar lan yr afon Ogwen. Yno hefyd roedd Sian Gwennlian, aelod cynulliad yr ardal a chynrhychiolwyr o Grwpiau Gwyrdd ysgolion eraill yr ardal.

Merched y Wawr Arfon

Dyma lun o Buddug Jones, Llywydd Is-bwyllgor er Budd yr Anabl a Val Jones Griffith, Trysorydd, Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr sydd wedi casglu £2160.00 i elusen Sistema Cymru - Codi'r To drwy gynnal tri gweithgaredd i godi arian sef distawrwydd nodedig, ffair haf a stondin yng nghyntedd Ysbyty Gwynedd. Cyflwynwyd y sic i Alun Ffred Jones, Cadeirydd Sistema Cymru - Codi'r To yng nghyngerdd haf Codi'r To yn Ysgol Maesincla ar y 12fed o Orffennaf. Yn bresennol hefyd mae Owain Lemin Roberts, Pennaeth Ysgol Maesincla a Bari Gwilliam, Cyfarwyddwr Cerdd Codi'r To.

Mae Codi'r To yn brosiect adfywio cymunedol sydd yn dod a'r ddull El Sistema fyd enwog i ogledd Cymru. Mae'r cynllun yn gweithio mewn dwy ysgol gynradd, Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Glancegin ym Mangor.

Mae tiwtoriaid cerdd proffesiynol yn gweithio yn yr ysgolion yn arwain gweithgareddau cerddorol a rhoi cyfle i bob disgybl ym mlwyddyn 3,4 a 5 Ysgol Glancegin a Blwyddyn 6 Ysgol Maesincla ddysgu offeryn pres a tharo. Maent yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o gwmpas yr ysgolion gan ddarparu cerddoriaeth fyw yn y gymuned.



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Teithio ar eira (4)
- 4 Hylif bywyd (5)
- 9 Mae hon yn gwasgu mewn colledion (5)
- 10 Anfon nwyddau dramor (7)
- 11 Mynd i ffwrdd (7)
- 12 Simsan ac anwadal (5)
- 13 Trefnu Cerdd Dant (5)
- 15 Y pryd olaf (5)
- 18 Rheswm (anwir weithiau) am fod yn hwyr (5)
- 20 Achlysurol (7)
- 23 Dal gafael, neu daflu dro arall (7)
- 24 Daeth o'i wely (5)
- 25 Dyfalu neu amcanu, ar lafar (5)
- 26 Llawer iawn (4)

I LAWYR

- 2 Cosi'n bryfoclyd (7)
- 3 Gwasanaeth crefyddol mewn capel (5)
- 4 Mynd yn salach (6)
- 5 Bathodyn teulu rhai yn 22 I Lawr (7)
- 6 Cymhleth ac anodd (5)
- 7 Lle i aros, fel un "llwm yr ych" (4)
- 8 Un bach mam Crwys oedd y perta yn y plwy (6)
- 13 Pridd y bedd (6)
- 14 Twt a thaclus (7)
- 16 Llai na'r hyn sy'n ddigonol (7)
- 17 Hen dref gaerog hynafol ar y gororau (6)
- 19 Canol yr argraffdy (5)
- 21 Tâl a chyflog (5)
- 22 Anrhydeddu'n farchog (4)

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/ AWST 2016

AR DRAWS 1 Maco, 3 Craig, 7 Ynddo, 8 Edrychiad, 9 Gwawrddydd, 10 Saib, 11 Blwyddyn Naid, 14 Cewch, 16 Crwbanod, 18 Diwenwyn, 19 Echel, 20 Diwyd, 21 Llipa

I LAWR 1 Manaw, 2 Clodwiw, 3 Cerydd, 4 Awchus, 5 Glaniad, 6 Cerddodd, 11 Brechiad, 12 Newynu, 13 Academi, 15 Chwerw, 16 Clwyd, 17 Omega

	1	2		3		4		5		6		
7												8
9						10						
11								12				
13				14				15		16		
						17						
18		19				20		21				22
23								24				
		25						26				

Gwallau y tro hwn oedd ‘dilechwyn’ gan ddau gynnig a ‘direchwyn’ yn lle’r ateb cywir ‘diwenwyn’. Hefyd cafwyd ‘awchio’ yn lle ‘awchus’ ac ‘orig’ yn lle ‘saib’.

Ond cafwyd atebion cywir gan y canlynol, a llongyfarchiadau i chi am hynny : Adrian Poulton, Pentir; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Myra Evans, Niwbwrch; Doris Shaw, Bangor; Gwyl a Barbara Owen; Bryn a Gwen Evans, Ann Carran, Gaynor

Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Gareth William Jones, Bow Street; Gwen Griffith, Deiniolen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; E. E. Roberts, Llanberis; Donna Coleby, Penwortham; Barbara Jones, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid; Ellen Whitehouse, Birmingham; Derek a Mai Jones, Dilys Parry, Rhiwlas. Ond y cyntaf allan o'r het i dderbyn y wobr oedd cynnig Jean Hughes, Bryn Awel, Talybont, Bangor LL57 3UU. Da iawn chi.

Atebion erbyn 3 Hydref, 2016 i ‘Croesair Medi’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD.

Ysgol Llanllechid

Croeso
Croeso'n ôl ar ôl gwyliau'r haf gan obeithio i bawb gael cyfle i gael seibiant.

Ffair Ysgol Llanllechid
Cynhelir ein Ffair ar y Sadwrn olaf ym mis Medi, sef Medi 24. Edrychwn ymlaen at ddiwrnod llwyddiannus eto eleni. Diolch i chi am eich cymorth a'ch cefnogaeth.

Atebion erbyn 24 Awst, 2016 i ‘Croesair Gorffennaf/Awst’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Ysgol Abercaseg



Cyflwyno gwobrau presenodeb



Gwobrau Answadd

Ffarwelio

Cafwyd gwasanaeth a pharti ffarwelio i blant Blwyddyn 2 a Miss Cadi. Pob dymuniad da iddyn nhw ym Mhen y Bryn. Ffarweliwyd hefyd â Mrs Siân Elfryn a phob dymuniad da iddi hithau yn ei swydd newydd yn Ysgol Llanbedrog.

Cyflwyniad o weithgareddau'r flwyddyn

Daeth rhieni pob dosbarth yn eu tro i wyllo fideo o weithgareddau â gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Cafwyd ymateb gwresog gan fod pawb wedi mwynhau gweld eu plant yn hapus yn eu gwaith.

Presenoldeb Blwyddyn Cant y Cant

Llongyfarchiadau i Elin Davies, Caty Williams ac Ioan Stammers

am ddod i'r ysgol bob diwrnod yn ystod y flwyddyn. Eleni - yn dilyn awgrym y Sgwad Syniadau - rhoddwyd anrheg yn wobwr i'r rhai â lwyddodd i wneud hyn.

Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach

Llongyfarchiadau enfawr i bawb yn yr ysgol yn ogystal â rhieni a llywodraethwyr fu'n gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn derbyn y wobwr hon. Treuliodd yr arolygwyr ddeuddydd yn yr ysgol yn holi, arsylwi a phrofi gweithgareddau. Roeddent wedi gwirioni â gwaith clodwiw y Sgwad Syniadau ac yn canmol pob agwedd o fywyd iach yr ysgol. Rydym yn falch iawn o allu dweud fod Ysgol Abercaseg yn Ysgol Iach ragorol.

Chwaraeon

Karate

Llongyfarchiadau i griw o Glwb Karate Bethesda ar eu llwyddiant ym Mhencampwriaethau Karate Cenedlaethol SSU yn ddiweddar. Cawsant 20 medal unigol ac 11 pencampwyr Prydain. Canlyniad gwych i'r Clwb! Roeddent yn rhan o dîm o Gymru gyda chwaer glwb o Gonwy, a enillodd rhyngddynt 29 o fedalau gyda rhan helaeth ohonynt yn dod i Fethesda, gyda theitlau Prydeinig mewn "kata, kumite, tîm kata a thîm kumite".

Dyweddodd hyfforddwr y Clwb, Sensei Andy Plumb 4th Dan, mai hon oedd y gystadleuaeth fwyaf llwyddiannus i'r clwb, hyn o ganlyniad i waith caled ac ymroddiad y myfyrwyr.

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Sensei Andy ar 07595361624 neu drwy Facebook.com/shukokainorthwales



Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai

Canlyniadau
AWST 13: Llanfairpwll o Mynydd Llandygai 7
Goliau: Jamie W 2, Dylan Price, Steven T, Ian Owen, Mark Hughes, Wyn Morris.
Awst 16: Mynydd Llandygai 5 Llandudno Albion 4
Goliau: David J, Liam W, Alwyn Roberts., Ian

Owen, Wyn Morris
Awst 24: Pentraeth1. Mynydd Llandygai 8
Goliau: Liam W 3, Alwyn Roberts, Ian Owen, Kevin Roberts, Mark H, Jamie W.
Awst 27: Mynydd Llandygai 5 Porthaethwy 0
Goliau: Iwan Morris., Jamie W 2, Mathew Smith 2